

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Dangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014

Dyddiad cyhoeddi: **28 Tachwedd 2013**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **27 Chwefror 2014**

Trosolwg	Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r dangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.
Sut i ymateb	Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad isod erbyn 27 Chwefror. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar-lein ar gael yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau Bydd Gweminar Ymgynghori GoTo (seminar ymgynghori ar-lein) yn cael ei chynnal ar 16 ac 17 Rhagfyr. Am fwy o fanylion cofrestru ewch i: http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/consultation-webinar/?lang=cy
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	Gellir gwneud cais am y ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. Mae gwybodaeth am Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gael yn: http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy I gofrestru i dderbyn cylchlythyr Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, e-bostiwch: ystadegau.cynhwysiant@cymru.gsi.gov.uk
Manylion cyswllt	Tîm Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ ystadegau.cynhwysiant@cymru.gsi.gov.uk 029 2082 5088

Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

1	Cyflwyniad	4
2	Crynodeb	5
3	Cefndir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC).....	8
4	Datblygu cynigion ar gyfer MALIC 2014.....	12
5	Cynigion ar gyfer meysydd a dangosyddion	14
5.1	Incwm.....	15
5.2	Cyflogaeth.....	17
5.3	Iechyd	18
5.4	Addysg.....	22
5.5	Mynediad i wasanaethau	25
5.6	Diogelwch cymunedol	31
5.7	Amgylchedd ffisegol.....	36
5.8	Tai.....	39
6	Mynegai Plant a mynegeion posibl eraill	41
7	Y camau nesaf	43
	Atodiad A: Methodoleg.....	44
	Atodiad B: Uned ddaearyddol	47
	Atodiad C: Aelodau'r Grŵp Llywodraethu.....	49
	Atodiad D: Dangosyddion MALIC 2011.....	52
	Atodiad E: Mynediad i Wasanaethau - cyfuno amseroedd teithio trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat.....	53
	Atodiad F: Mynediad i Wasanaethau - manylion y dulliau arfaethedig o gyfrifo'r amseroedd teithio	55
	Atodiad G: Newidiadau technegol arfaethedig i'r Dangosyddion Amgylchedd (Aer) 60	

1 Cyflwyniad

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny sydd â'r crynadau uchaf o fathau gwahanol o amddifadedd. Mae'n dod o dan faner Ystadegau Gwladol, ac yn cael ei baratoi gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru.

Cafodd y mynegai diweddaraf ei gyhoeddi yn 2011. Mae gwybodaeth am MALIC 2011 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Bydd y mynegai diweddaraf ar gael ddiwedd 2014, gan ddefnyddio'r data diweddaraf a dangosyddion gwell sy'n seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd o baratoi'r mynegeion blaenorol.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw datgelu'r cynigion cyfredol ar gyfer y meysydd a'r dangosyddion yn MALIC 2014 er mwyn eu hadolygu'n feirniadol. Rydym yn ymgynghori yn ystod y cyfnod hwn er mwyn caniatáu amser i weithredu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, lle bo'n bosibl, cyn cwblhau'r manylion ar gyfer MALIC 2014. Mae'r ddogfen yn manylu ar ein syniadau ynglŷn â'r meysydd a gaiff eu cynnwys yn 2014 yn ogystal â'r dangosyddion ar gyfer pob maes.

Mae'r ymgynghoriad yn agored i bob unigolyn a sefydliad.

Bydd crynodeb o'r ymatebion a ddaw i law yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2014.

Mae'r broses ymgynghori yn cychwyn ar 28 Tachwedd 2013 **a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 27 Chwefror 2014.**

2 Crynodeb

Nod yr ymgynghoriad hwn yw canfod barn y defnyddwyr ar gynigion ar gyfer dangosyddion MALIC 2014. Er mwyn datblygu cynigion y dangosyddion, bu ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda saith grŵp pwnc arbenigol er mwyn adolygu'r dangosyddion a ddefnyddiwyd yn MALIC 2011, ac ystyried dangosyddion newydd posibl. Cafodd pynciau a godwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol eu hystyried hefyd. Lle bo'n bosibl, mae'r dangosyddion arfaethedig yn cydymffurfio â'r rhestr o feini prawf ar gyfer dangosyddion. Mae rhagor o wybodaeth am y broses o ddatblygu'r cynigion hyn i'w gweld yn Adran 4.

Mae manylion llawn y dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2014 i'w gweld yn Adran 5. Rhoddir manylion hefyd am ddangosyddion a ystyriwyd ond a wrthodwyd am ba bynnag reswm (e.e. amhriodol, diffyg data ac ati). Ar gyfer rhai meysydd, mae'r ddogfen hon yn pwysleisio'r gwaith sy'n parhau i bennu pa mor addas yw dangosyddion ar gyfer MALIC 2014. Mewn rhai achosion, mae'r ddogfen yn amlinellu dull gweithredu dymunol ar gyfer dangosydd, yn ogystal â'r ail ddewis os nad yw'r dull dymunol yn bosibl. Croesawn sylwadau'r defnyddwyr ar yr holl gynigion hyn.

Yn 2011, cafodd Mynegai Amddifadedd Lluosog ar wahân ar gyfer plant ei gyhoeddi. Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu cynnig i gyhoeddi Mynegai Amddifadedd Lluosog Plant ddechrau 2015, yn yr un fformat â Mynegai Plant 2011. Mae rhagor o fanylion am y cynnig hwn ar gael yn Adran 6. Rydym yn croesawu ymateb y defnyddwyr i'r cynnig hwn.

Ceir crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad ar y dudalen nesaf. Mae'r cwestiynau wedi'u rhestru hefyd yn y manau priodol yn y ddogfen ymgynghori.

Mae ffurflen ymateb ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau
Does dim rhaid i chi ateb pob cwestiwn.

Cynhelir gweminar ymgynghori (seminar ymgynghori ar-lein) Saesneg ar 16 Rhagfyr, a gweminar Gymraeg ar 17 Rhagfyr. Byddant yn cynnwys cyflwyniad i'r cynigion yn ogystal â chyfle i ofyn cwestiynau. I gael rhagor o fanylion am y gweminarau ac i gofrestru, ewch i: <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/consultation-webinar/?lang=cy>

2.1 Cwestiynau arfaethedig y ddogfen

2.1.1 Cynigion yn ymwneud â meysydd (gweler Adran 5)

Isod, ceir rhestr o gwestiynau penodol a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu MALIC 2014. Nid yw'n hollgynhwysol, ac ni ddylent gyfyngu ar unrhyw ymateb sy'n berthnasol i'r maes hwn.

Incwm

1. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Cyflogaeth

2. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Iechyd

3. Yn amodol ar ansawdd data a datblygu data digonol, ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gynnwys dangosydd ar achosion o glefydau cronig lle cafwyd diagnosis?
4. Yn amodol ar ymchwil bellach, ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnwys dangosydd ar "y gyfran o ofalwyr di-dâl"?
5. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Addysg

6. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i hepgor y Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 3?
7. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer dau ddangosydd cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4?
8. Beth yw'ch barn chi ar newid y dangosyddion Absenoldebau Cyffredinol i un sy'n seiliedig ar absenoldebau ailadroddus?
9. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Mynediad i Wasanaethau

10. Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau, yr ychwanegiadau, a'r eithriadau o'r rhestr gwasanaethau arfaethedig ar gyfer MALIC 2014?
11. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gyfuno trafndiaeth gyhoeddus a phreifat?
12. Beth yw'ch barn chi ar y dull cyfrifo amseroedd teithio dewisol?

13. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Diogelwch Cymunedol

14. Ydych chi'n cytuno â'r dull a ffeirir o gynnwys achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol (os yw'r data'n ddigon cadarn) neu'r dewis arall sef defnyddio data lleoliad troseddwyd (fel ar gyfer MALIC blaenorol)?
15. Beth yw'ch barn chi ar ddefnyddio'r holl ddamweiniau ffyrdd fel dangosydd newydd, gan gymryd nad yw nifer y cerddwyr a'r beicwyr a gafodd eu hanafu yn ddigon cadarn ar gyfer MALIC?
16. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig/a wrthodwyd neu unrhyw sylwadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Amgylchedd Ffisegol

17. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Tai

18. A yw'n briodol mai dim ond un dangosydd (gorlenwi) sydd gan y maes hwn os mai dyna'r oll sydd ar gael?
19. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

Mynegai Plant (gweler Adran 6)

20. Disgrifiwch eich defnydd o'r Mynegai Plant ar ei ffurf bresennol.
21. Yn y tymor hirach, a ddylid rhoi'r flaenoriaeth i ddadansoddi data sylfaenol MALIC (gan gynnwys yn ôl oedran lle bo modd) yn hytrach na chynhyrchu'r Mynegai Plant ar ei ffurf bresennol?

Camau nesaf (gweler Adran 7)

22. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar gynigion ar gyfer MALIC 2014 (na chyfeiriwyd atynt eisoes) neu waith ar MALIC yn y dyfodol?

3 Cefndir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

3.1 Beth mae MALIC yn ei fesur?

MALIC yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny o'r wlad sydd â'r crynadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Felly, mae MALIC yn mesur amddifadedd lluosog ar sail ardal a hefyd o safbwynt amddifadedd cymharol. Ceir esboniad llawnach o'r termau allweddol hyn isod.

Ar hyn o bryd mae MALIC yn cynnwys hyd at wyth maes (neu fath) gwahanol o amddifadedd:

- a) Incwm
- b) Cyflogaeth
- c) Iechyd
- d) Addysg
- e) Mynediad daearyddol at wasanaethau
- f) Diogelwch cymunedol
- g) Amgylchedd ffisegol
- h) Tai

Mae data pob maes yn cael ei gasglu o bob math o ddangosyddion gwahanol. Mae Atodiad A yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i greu'r mynegai.

Amddifadedd yw'r diffyg mynediad i gyfleoedd ac adnoddau y byddem yn eu disgwyl yn ein cymdeithas. Mae'r meysydd a restrir uchod yn ymwneud ag amddifadedd o safbwynt materol a chymdeithasol. Ystyr amddifadedd materol yw bod heb ddigon o adnoddau ffisegol – bwyd, dillad a chysgod – i gynnal safon bywyd penodol. Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at allu'r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae amddifadedd lluosog yn cyfeirio at fwy nag un math o amddifadedd. Mae ardal yn cynnwys lefelau lluosog o amddifadedd os yw'n cynnwys crynhoad uchel o bobl sy'n profi'r math hwnnw o amddifadedd. Yn gyffredinol, po fwyaf o feysydd sydd â chrynadau uchel o amddifadedd yna'r mwyaf yw lefelau amddifadedd cyffredinol yr ardal. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yr *un* bobl yn dioddef mathau lluosog o amddifadedd yn yr ardal, er y byddem yn disgwyl cryn dipyn o orgyffwrdd.

Mesuriad ar sail ardal: Cyfrifir MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) yng Nghymru. Ar ôl Cyfrifiad 2011, cafodd 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is eu nodi yng Nghymru, ac mae ganddynt boblogaeth gyfartalog o 1600 o bobl. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w weld yn Atodiad B. Mae'r AGEHI yn seiliedig ar ddangosyddion sy'n ystyried nodweddion cyfanredol y bobl sy'n byw yn yr ardal yn ogystal â nodweddion yr ardal ei hun mewn rhai achosion (er enghraifft y maes amgylchedd ffisegol).

Mesuriad cymharol: Mae'r Mynegai yn darparu ffordd o nodi'r ardaloedd yn eu trefn, o'r lleiaf i'r mwyaf difreintiedig. Nid yw'n mesur lefelau amddifadedd mewn ardal ond yn hytrach a yw'r ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig na holl ardaloedd eraill Cymru; felly gallwn wybod pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) difreintiedig nag eraill, ond nid faint yn fwy

neu'n llai. Y rheswm dros ddefnyddio dull o'r fath yw bod hyn yn caniatáu inni gyfuno'r meysydd gwahanol.

Mynegai: Grŵp o fesuriadau gwahanol wedi'u cyfuno'n un rhif yw mynegai. Y nod yw dangos newidiadau mewn amrywiadau cymhleth fel cynnyrch diwydiannol, prisiau neu amddifadedd yn yr achos yma. Yna, mae mynegai yn fodd i gymharu rhwng gwerthoedd gwahanol - sef cymharu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn achos MALIC.

3.2 Llunio'r Mynegai

Mae'r Mynegai yn cynnwys tair elfen:

- Y Mynegai ei hun, sef set o raddfeydd;
- Graddfeydd yr wyth math o amddifadedd, neu feysydd, ac sy'n cael eu cyfuno i greu'r Mynegai cyffredinol;
- Y dangosyddion sylfaenol, y gellir eu mesur yn uniongyrchol, ac sy'n cael eu cyfuno i greu graddfeydd y meysydd. Nodir llawer, ond nid pob un, o'r dangosyddion fel cyfraddau. Mae'r unedau yn dibynnu ar beth sy'n cael ei fesur.

Mae'r holl elfennau hyn yn cael eu cyfrifo ar gyfer pob AGEHI yng Nghymru. Mae graddfeydd cyffredinol MALIC 2011 a graddfeydd yr wyth maes amddifadedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru (www.statswales.wales.gov.uk). Mae'r data dangosyddion sylfaenol yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn ar wefan StatsCymru os yw ar gael. Gellir defnyddio'r data dangosyddion i fonitro newid dros amser. Mae gwybodaeth fanylach am y fethodoleg hon ar gael yn Atodiad A.

3.3 Ar gyfer beth gellir defnyddio'r MALIC?

Gellir defnyddio'r MALIC i wneud y canlynol:

- Cymharu'r graddfeydd amddifadedd cyffredinol ar gyfer pob AGEHI neu grwpiau ohonynt (fel rhai mewn awdurdod lleol), fel bod modd rhestru'r AGEHI mewn trefn o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig;
- Cymharu'r graddfeydd o fewn y meysydd amddifadedd gwahanol ar gyfer pob AGEHI;
- Cymharu dau neu fwy o awdurdodau lleol (neu grwpiau eraill o AGEHI wedi'u cyfuno) trwy edrych ar gyfran yr AGEHI mewn yn yr awdurdod lleol sydd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig (dyweder) yng Nghymru gyfan;
- Er na ellir defnyddio system graddfeydd neu rancio megis MALIC i fonitro newid dros amser, mae'n bosibl dadansoddi newid dros amser trwy edrych ar y data dangosydd sylfaenol (a gyhoeddir ar StatsCymru).

Enghreifftiau o ddefnyddio MALIC yn Llywodraeth Cymru:

- Datblygu a monitro'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- Cyfrifo teuluoedd o ysgolion ac fel ffactor cyd-destunol mewn cyfrifiadau gwerth ychwanegol ysgolion, sydd bellach yn cyfrannu at system bandio ysgolion uwchradd;
- Defnyddiwyd y data dangosyddion sylfaenol er mwyn nodi pa ardaloedd ddylai dderbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg;
- Defnyddiwyd degraddau amddifadedd MALIC yn helaeth i fesur anghydraddoldebau iechydd, er enghraifft yng nghyhoeddiad Arsyllfa Iechyd

Cyhoeddus Cymru ar dueddiadau marwolaethau a disgwyliad oes yn 2011 a'r proffil cynharach am alcohol ac iechyd yng Nghymru;

- Defnyddir y mynegai, ei feysydd a'i ddangosyddion i nodi a deall amddifadedd yn Ardaloedd Adfywio Strategol Llywodraeth Cymru.

Enghreifftiau o lywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill yn defnyddio MALIC:

- Asesiadau anghenion Llywodraeth Lleol ar gyfer iechyd, lles a gofal cymdeithasol; Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol;
- Creu proffiliau ardal;
- Cefnogi ceisiadau am arian Ewropeaidd, targedu gwasanaethau lleol a dadansoddi'r cysylltiadau rhwng amddifadedd lleol a phroblemau amrywiol gan gynnwys materion iechyd;
- Ar gyfer ymchwil iechyd cyhoeddus, helpu i ddeall penderfyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach mewn perthynas ag iechyd a salwch;
- Cynllunio adnoddau plismona cymunedol.

3.4 Cyfyngiadau MALIC

Mae'n bwysig cofio nad MALIC yw'r unig ffordd o fesur amddifadedd. Cafodd ei ddatblygu at bwrpas penodol, sef mesur crynadau o amddifadedd ar lefel ardal fach.

Unigolion difreintiedig: Gall unigolion na fyddant yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig fod yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, a gall fod unigolion a fyddai'n cael eu hystyried yn ddifreintiedig fod yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae tua 1 o bob 5 o bobl o aelwydydd incwm isel yn byw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er ei bod hi'n wir dweud bod amddifadedd wedi'i grynhoi fwy mewn rhai ardaloedd na'i gilydd, mae 4 o bob 5 o bobl ar fudd-dal incwm yn byw y tu allan i'r ardaloedd hyn.

Unigolion ag amddifadedd lluosog: Nid yw MALIC yn nodi unigolion ag amddifadedd lluosog, yn hytrach, mae'n nodi'r ardaloedd lle mae crynadau o sawl math gwahanol o amddifadedd. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu cysylltu'r data sydd yn y Mynegai ar lefel unigolyn er mwyn deall graddau amddifadedd lluosog unigolion.

Amddifadedd absoliwt: Nid yw MALIC yn mesur faint o amddifadedd sydd mewn ardal, er enghraifft, nid yw'n caniatáu ar gyfer datganiadau fel "mae ardal A ddwywaith mwy difreintiedig nag ardal B" y gellir defnyddio'r graddfeydd a'r sgoriau. Dim ond i ddweud "mae ardal A yn fwy difreintiedig nag ardal B" y gellir defnyddio'r safleoedd a'r sgoriau. Hyd yn oed os yw safle'r ardal yn aros yr un fath mewn cyhoeddiadau dilynol gan MALIC, gallai lefelau amddifadedd yr ardal fod wedi cynyddu neu leihau, ond ddim digon i effeithio ar y gymhariaeth ag ardaloedd eraill. Fodd bynnag, mae modd dadansoddi'r dangosyddion unigol o fewn MALIC i gymharu rhwng ardaloedd a thros amser.

Tlodi: Mae tlodi fel arfer yn golygu diffyg arian, lle bo amddifadedd yn cynnwys diffyg cyfleoedd ac adnoddau y gallem ddisgwyl eu cael mewn cymdeithas, er enghraifft, iechyd da neu lle diogel i fyw.

Cymdeithas gefnog: Mae'n bwysig cofio nad yw diffyg amddifadedd yr un fath â bod yn gefnog. Nid yr ardal lleiaf difreintiedig yw'r ardal mwyaf cefnog yng Nghymru o reidrwydd. Mae hefyd yn golygu bod MALIC fwyaf effeithiol ar gyfer gwahaniaethu rhwng yr ardaloedd

mwyaf difreintiedig, a dylid bod yn ofalus iawn wrth ddod i gasgliadau am y gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd llai difreintiedig.

Amddifadedd ar draws y DU: Nid oes modd cymharu graddfeydd a sgoriau â Mynegeion Amddifadedd Lluosog yng ngwledydd eraill y DU. Mae rhagor o wybodaeth am faterion cymharu mynegeion ledled y DU ar gael ar wefan Neighbourhood Statistics¹.

Cymharu dros amser: Gan mai mynegai cymharol yw MALIC, mae'n bwysig peidio â chymharu'r safleoedd ar draws mynegeion lluosog. Mae data dangosyddion MALIC yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn ar wefan StatsCymru², lle bo'n bosibl, fel bod modd cymharu dros amser.

¹

<http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/Info.do?page=analysisandguidance/analysisarticle/s/indices-of-deprivation.htm>

² <https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-Indicator-Analysis>

4 Datblygu cynigion ar gyfer MALIC 2014

4.1 Adolygu dangosyddion ar gyfer MALIC 2014

Grŵp Llywio MALIC mewnol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am oruchwylio cyfeiriad polisi a'r broses o gynhyrchu a lledaenu MALIC 2014. Mae grŵp cynghori allanol yn rhoi cyngor arbenigol i'r grŵp llywio. Mae gwybodaeth am aelodau'r grŵp i'w weld yn Atodiad C.

Fel cam cyntaf y broses o baratoi MALIC 2014, cynhaliwyd prosiect byr i ystyried a chytuno ar y sail gydsyniadol ar gyfer MALIC 2014. Cafodd grŵp o academyddion, dadansoddwyr a defnyddwyr polisi Llywodraeth Cymru ei sefydlu er mwyn:

- egluro'r sail gydsyniadol ar gyfer diffinio a mesur amddifadedd o fewn MALIC;
- ailddiffinio ac esbonio sut y datblygwyd MALIC a beth yw ystyr 'amddifadedd ar sail ardal' yng nghyd-destun MALIC.

Mae canlyniadau'r gwaith hwn (gan gynnwys diffinio amddifadedd, diffiniadau o feysydd a meini prawf ar gyfer dangosyddion MALIC) wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori hon drwyddi draw.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r dasg o ystyried dangosyddion ar gyfer MALIC 2014, cafodd saith gweithgor maes ar wahân eu sefydlu:

- Incwm a Chyflogaeth
- Addysg
- Iechyd
- Mynediad i Wasanaethau
- Diogelwch Cymunedol
- Amgylchedd Ffisegol
- Tai

Roedd pob gweithgor maes yn cynnwys arbenigwyr dadansoddi o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill (Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru), academyddion yn ogystal â chynrychiolwyr polisi Llywodraeth Cymru lle bo'n briodol. Mae'r rhestr aelodaeth lawn yn Atodiad C.

Gofynnwyd i'r gweithgorau ystyried:

- Adolygu'r ffynonellau data a dangosyddion a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2011 (gweler Atodiad D);
- Ystyried dangosyddion newydd posibl, gan gynnwys adolygu unrhyw faterion heb eu datrys o drafodaethau gweithgorau pob maes ac ymgynghoriadau MALIC 2008 a MALIC 2011;
- Trafod a chytuno ar ddangosyddion arfaethedig ar gyfer eu meysydd, gan sicrhau bod yr holl ddangosyddion yn cael eu profi a'u cadarnhau fel rhai addas i'r diben;
- Goruchwylio'r dasg o baratoi canllawiau technegol am ddangosyddion a ddewiswyd i'w cynnwys yn yr adroddiadau terfynol gan gynnwys defnydd priodol o'r dangosyddion unigol a'r maes.

Gofynnwyd i weithgorau pob maes sicrhau bod y dangosyddion arfaethedig yn bodloni'r rhestr meini prawf a ddisgrifir isod lle bo modd.

4.2 Meini prawf dangosyddion

Dylai'r dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn MALIC fodloni sawl maen prawf er mwyn sicrhau eu bod yn gywir a pherthnasol i fesur amddifadedd.

- a) Dylai pob dangosydd a ddewiswyd fod yn berthnasol i fynegai crynadau amddifadedd seiliedig ar ardal (fel y diffiniwyd at ddibenion MALIC). Lle bo'n bosibl, dylai fod yn ymwneud â 'diffyg gorfodol'³.
- b) Dylai pob dangosydd a ddewiswyd cael ei gynnwys yn un o'r meysydd amddifadedd y cytunwyd arno yn unig.
- c) O fewn pob maes, lle bo'n bosibl, dylid dewis dangosyddion i gynrychioli prif nodweddion y math hwnnw o amddifadedd yn hytrach na'r amddifadedd sy'n effeithio ar nifer fach o bobl neu ardaloedd. Mae hyn yn caniatáu inni nodi graddau o amddifadedd yn hytrach na dull syml 'yn bresennol/ddim yn bresennol'.
- d) Dylai data dangosyddion fod ar gael ar lefel ardal fach, a'i gasglu ar sail gyson ar gyfer Cymru gyfan.
- e) Dylai dangosyddion fod yn ystadegol gadarn ar lefel ardal fach. Os yw nifer yr achosion yn isel, dylid cynnwys cyfanrifau dros gyfnodau hirach er mwyn sicrhau nad yw digwyddiadau untro neu annodweddiadol yn llurgunio dangosyddion.
- f) Dylai data dangosyddion gael ei ddiweddarau'n rheolaidd, a dylai fod mor gyfoes â phosibl.
- g) Yn ddelfrydol, dylai dangosyddion ym mhob maes fod yn fesurau uniongyrchol o'r math hwnnw o amddifadedd. Os nad oes digon o fesuriadau uniongyrchol ar gael, gellir defnyddio mesurau procsi da (e.e. er nad yw data o systemau gweinyddol bob amser yn ffordd uniongyrchol o fesur amddifadedd, maent yn fesurau procsi gwyb yn aml, a'u mantais yw eu bod yn gyfrifiadau manwl o ystadegau ardaloedd bach yn bosibl).
- h) Dim ond law yn llaw â detholiad da o ddangosyddion nad ydynt wedi'u modelu y dylid defnyddio mesurau wedi'u modelu. Dylai'r math hwn o fodelu geisio sicrhau bod newidiadau dros amser yn cael eu hadlewyrchu yn yr amrywiad.
- i) Dylai dangosyddion ddilyn nodweddion disgwyliedig dangosydd perfformiad da e.e. os oes newidiadau gwirioneddol dros amser, yna bydd y dangosyddion yn adlewyrchu hynny; bydd modd esbonio unrhyw newidiadau yn y dangosydd.

³Mae 'diffyg gorfodol' yn digwydd pan fo unigolyn yn methu â chaffael nwyddau neu wasanaeth oherwydd nad oes ganddo'r modd ariannol neu unrhyw fodd arall o wneud hynny.

5 Cynigion ar gyfer meysydd a dangosyddion

Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r cynigion presennol ar gyfer pob un o'r wyth maes yn ogystal â rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad. Croesawn eich ymateb i rai o'r cwestiynau neu bob un ohonynt.

5.1 Incwm

Mae'r maes incwm yn canolbwyntio ar y gyfran o bobl ag incwm islaw lefel ddiffiniedig.

5.1.1 Dangosyddion arfaethedig

Bydd cyflwyno'r Credydau Cynhwysol yn gyffredinol yn cael cryn effaith ar y dull o fesur maes incwm MALIC yn y dyfodol. Er hynny, bydd data cyn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol ar gael ar gyfer MALIC 2014.

O gofio fod Credyd Cynhwysol yn debyg o olygu y bydd newidiadau sylweddol i'r maes hwn yn y dyfodol, mae'r cynigion ar gyfer y maes yn 2014 yn seiliedig ar egwyddor o 'newid lleiaf posibl' yn y cyfnod dros dro.

Mae gwybodaeth dechnegol lawn am ddangosyddion ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2011⁴.

5.1.2 Dangosydd amddifadedd incwm

Mae'r maes Incwm yn cynnwys dangosydd cyfansawdd sengl, amddifadedd incwm, wedi'i gyfrifo o'r tair elfen ganlynol:

- (a) Y ganran sy'n derbyn budd-daliadau seiliedig ar incwm
- (b) Plentyn dibynnol sy'n derbyn credydau treth gydag incwm sy'n llai na 60% o ganolrif Cymru
- (c) Ceiswyr Lloches sy'n cael cymorth NASS

Mae'r uchod yn cyfrif unigolion unigryw (h.y. dim ond unwaith y mae rhai sy'n hawlio budd-daliadau lluosog yn cael eu cyfrif). Gellir crynhoi a chyfleu dangosyddion fel canran o gyfanswm poblogaeth AGEHI.

(a) Canran sy'n derbyn budd-daliadau seiliedig ar incwm

Mae'r dangosydd hwn yn cyfuno cyfanswm cyfartalog blynyddol (Chwefror, Mai, Awst, Tachwedd) hawlwy'r Cymhorthdal Incwm (IS), hawlwy'r Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm (JSA), hawlwy'r Credyd Pensiwn, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm (ESA) a nifer y dibynyddion sydd gan hawlwy'r IS, JSA, PC, ESA, oll wedi'u rhannu â chyfanswm y boblogaeth. Daw'r data o Astudiaeth Hydredol yr Adran Gwaith a Phensiynau (WPLS).

(b) Plentyn dibynnol sy'n derbyn credydau treth gydag incwm sy'n llai na 60% o ganolrif Cymru (cyn costau tai)

Pobl sy'n hawlio'r Credyd Treth Plant a'r Credyd Treth i Oedolion. Daw'r data o Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

(c) Ceiswyr Lloches sy'n cael cymorth NASS

Mae nifer y Ceiswyr Lloches sy'n cael cymorth gan y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS) ar ddiwedd Rhagfyr 2010 hefyd yn cael eu hychwanegu at y dangosydd hwn.

⁴ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/2011-technical-report/?lang=cy>

Mae newidiadau diweddar i'r system les yn golygu bod y meini prawf a'r trothwyon cymhwysedd ar gyfer rhai budd-daliadau eisoes wedi newid/ar fin newid. Mae hyn yn golygu na fydd modd cymharu'r dangosydd data â'r blynyddoedd blaenorol yn llwyr.

Y newid arfaethedig o ddangosydd MALIC 2011, yw dileu'r Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Gyfraniadau (JSA) o'r budd-daliadau sydd wedi'u cynnwys. Y rheswm am hyn yw nad yw'n fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, ac er mwyn sicrhau cysondeb wrth gynnwys rhai sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm. Bydd rhai sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar gyfraniadau a budd-dal rhestredig arall yn dal i gael eu cynnwys.

5.1.3 Dangosyddion eraill a drafodwyd

Amcangyfrifon incwm ardal fach - dyma'r dull sy'n cael ei ffafrio ar gyfer mesur amddifadedd incwm, ond nid oes ffynhonnell ddata addas ar gael ar hyn o bryd. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cynhyrchu amcangyfrifon incwm aelwydydd wedi'u modelu ar sail Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG). Fodd bynnag, byddai angen dull o fodelu'r data AGEHG i lawr i lefel AGEHI. Mae dyfodol y gyfres hon o ddata hefyd yn ansicr⁵.

Mae amcangyfrifon incwm AGEHI o ffynonellau data masnachol ar gael hefyd; ond nid oes modd asesu ansawdd y data hwn gan nad yw'r dulliau ar gael yn gyhoeddus.

Hawlwyr budd-daliadau parhaus – Mae gwybodaeth am hyd hawliau budd-daliadau ar gael gan Astudiaeth Hydredol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n cael ei ystyried yn ddata gwerthfawr o safbwynt gwybodaeth gyd-destunol, a rhoddir ystyriaeth i'w gyhoeddi ochr yn ochr â data dangosyddion MALIC.

5.1.4 Materion ar gyfer ymateb

Isod, ceir cwestiynau penodol a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu MALIC 2014. Nid ydynt yn gwestiynau hollgynhwysol, ac ni ddylent gyfyngu ar unrhyw ymateb perthnasol i'r maes.

- Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

⁵<http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/get-involved/consultations/consultations/statistical-products-2013/index.html>

5.2 Cyflogaeth

Diben y maes cyflogaeth yw cofnodi'r diffyg cyflogaeth. Mae'n cynnwys y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael ei heithrio'n anwirfoddol o waith, gan gynnwys rhai nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd gwaeledd neu sy'n ddi-waith ond yn chwilio'n ddyfal am swydd.

5.2.1 Dangosyddion arfaethedig

Bydd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn gyffredinol yn cael cryn effaith ar fesur maes cyflogaeth MALIC yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd data cyn dyddiau'r Credyd Cynhwysol ar gael ar gyfer MALIC 2014.

O gofio bod Credyd Cynhwysol yn debygol o arwain at newidiadau aruthrol i'r maes hwn yn y dyfodol, mae'r cynigion ar gyfer y maes yn 2014 yn seiliedig ar yr egwyddor 'newid lleiaf' posibl yn y cyfnod cychwynnol.

Mae gwybodaeth dechnegol lawn am y dangosyddion ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2011⁶.

5.2.2 Cyfran y boblogaeth sydd ar fudd-daliadau yn seiliedig ar gyflogaeth:

Cyfrifir y dangosydd budd-daliadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth trwy gyfri'r unigolion unigryw (h.y. dim ond unwaith y caiff unigolion sy'n hawlio budd-daliadau lluosog eu cyfrif) sy'n gallu hawlio:

- Budd-dal analluogrwydd (yn disodli Lwfans Anabledd Difrifol);
- Lwfans Ceiswyr Gwaith (JSA);
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA).

Mae'r dangosydd hwn yn cael ei nodi fel canran o gyfanswm poblogaeth yr AGEHI.

Mae newidiadau diweddar i'r system les yn golygu bod y trothwyon a'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhai budd-daliadau wedi'r fin newid. Mae hyn yn golygu na fydd modd cymharu data'r dangosydd â rhai'r blynyddoedd cynharach.

Y newid arfaethedig, o gymharu â dangosydd MALIC 2011, yw diddymu'r rhai sy'n rhan o'r Fargen Newydd. Mae'r rhaglen hon wedi'i disodli gan y Rhaglen Waith, sy'n agored i rai sy'n hawlio naill ai'r Lwfans Ceiswyr Gwaith neu'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae'r ddau fudd-dal eisoes wedi'u cynnwys yn y dangosydd.

5.2.3 Dangosyddion eraill a drafodwyd

Hawlwyr Budd-daliadau Parhaus – Mae gwybodaeth am hyd yr hawliadau budd-daliadau ar gael yn Astudiaeth Hydredol yr Adran Gwaith a Phensiynau (WPLS). Mae'r data yn wybodaeth gyd-destunol werthfawr a rhoddir ystyriaeth i'w chyhoeddi ochr yn ochr â data dangosyddion MALIC.

5.2.4 Materion ar gyfer ymateb

Isod, ceir rhestr o'r cwestiynau penodol a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu MALIC 2014. Nid ydynt yn gwestiynau hollgynhwysol, ac ni ddylent gyfyngu ar unrhyw ymateb perthnasol i'r maes hwn.

- Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

⁶ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/2011-technical-report/?lang=cy>

5.3 Iechyd

Diben y maes hwn yw mesur diffyg iechyd da.

O fewn y maes iechyd, defnyddir dadansoddiad ffactor i bwysoli'r dangosyddion cyfansoddol. Nid yw'n cynnwys unrhyw is-feysydd. Mae mynychder cancer, cyfraddau marwolaeth o bob achos a salwch cyfyngus hirdymor wedi'u safoni yn ôl oedran a rhyw (gan ddefnyddio dull safoni anuniongyrchol).

5.3.1 Dangosyddion arfaethedig

Cafodd y dangosyddion a ddefnyddiwyd yn MALIC 2011 eu hadolygu, yn ogystal â'r dangosyddion a wrthodwyd ar gyfer MALIC 2008 (pan gynhaliwyd yr ymgynghoriad diwethaf). Trafodwyd dangosyddion newydd posibl hefyd. Mae'r dangosyddion arfaethedig wedi'u rhestru isod, ac maent yn debygol o barhau'r un fath â'r mynegai diwethaf. Mae gwybodaeth dechnegol lawn am y dangosyddion cyfredol ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2011⁷.

Mynychder cancer – Mae cancer yn gyflwr cyffredin a bydd mwy na dau o bob pump⁸ o bobl yn datblygu rhyw fath o ganser yn ystod eu hoes. Mae'r clefyd yn gallu cael effeithiau negyddol sylweddol a pharhaol ar iechyd a lles yr unigolyn.

Y dangosydd yw nifer yr achosion o ganser (pob malaenedd ac eithrio cancer y croen nad yw'n felanoma) fesul 100,000 o'r boblogaeth, a chafodd ei gynnwys yn MALIC 2011 (cafodd mynychder cancer ei ddiystyru oherwydd diffyg data cadarn). Buom yn ystyried ai dim ond mathau penodol o ganser (h.y. rhai sy'n gysylltiedig ag amddifadedd) ddylai gael eu cynnwys yn y dangosydd, cyn penderfynu yn erbyn hynny, oherwydd y dylai'r dangosydd fesur diffyg iechyd yn gyffredinol nid dim ond agweddau iechyd sy'n gysylltiedig ag amddifadedd. Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Cancer Cymru yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn.

Salwch cyfyngus hirdymor - Cafodd nifer y bobl fesul 100,000 â salwch cyfyngus hirdymor ei gynnwys yn MALIC 2011. Roedd data'r dangosydd yn deillio o Gyfrifiad 2001 yn flaenorol, ond mae data newydd bellach ar gael o Gyfrifiad 2011. Mae salwch cyfyngus hirdymor yn cwmpasu unrhyw salwch, problem iechyd neu anabledd hirdymor sy'n cyfyngu ar waith neu weithgareddau bob dydd. Mae'r cwestiwn ar salwch cyfyngus hirdymor wedi newid rhywfaint, fel bod ymatebwyr yn gallu dweud bellach a ydynt wedi'u cyfyngu i raddau helaeth neu ychydig. Rydym yn cynnig y dylid cynnwys y rhai 'wedi'u cyfyngu i raddau helaeth' neu 'wedi'u cyfyngu ychydig' yn y dangosydd. Cafodd cwestiwn iechyd cyffredinol arall ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2011, ac mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod cydberthynas uchel rhwng y ddau fesuriad. Salwch hirdymor cyfyngus yw'r dangosydd a ffeirir, gan fod y cwestiwn yn llai gwrthrychol. Data Cyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r ffynhonnell ar gyfer y dangosydd hwn.

Pwysau geni isel - Roedd canran y genedigaethau byw sengl o dan 2.5kg wedi'u cynnwys yn MALIC 2011. Ar ôl ystyried cynnwys dim ond genedigaethau o gyfnodau beichiogrwydd penodol, penderfynwyd cynnwys pob genedigaeth wedyn gan fod pwysau geni isel yn gallu effeithio ar iechyd yn y dyfodol waeth beth fo'r cyfnod beichiogrwydd. Y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Cymunedol a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r ffynonellau data ar gyfer y dangosydd hwn.

⁷ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/2011-technical-report/?lang=cy>

⁸ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/242/11%20AllCancers.pdf>

Cyfradd marwolaethau o bob achos - Cafodd nifer y marwolaethau fesul 100,000 ei gynnwys yn MALIC 2011. Mae'r dangosydd hwn yn gweithredu fel procsi ar gyfer morbidrwydd. Mae iechyd gwael yn amlygu'i hun drwy ansawdd bywyd salach a hefyd disgwyliad oes is, y gellir eu cofnodi drwy gyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran a rhyw. Byddwn yn cynnwys y dangosydd cadarn hwn, gan nad oes unrhyw ddata mwy priodol ar glefyd cronig ar gael. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw ffynhonnell data'r dangosydd hwn.

5.3.2 Dangosyddion eraill a drafodwyd

Data presgripsiynau – Mae data presgripsiynau yn ffynhonnell bosibl ar gyfer dangosydd iechyd meddwl (h.y. rhai sy'n cael cyffuriau tuag at gyflyrau fel iselder a gorbryder). Ar hyn o bryd, nid yw data presgripsiynau yn addas i'w gynnwys yn MALIC gan nad yw codau post cleifion yn cael eu casglu'n ganolog er mwyn cynhyrchu cyfrifiadau AGEHI. Byddwn yn ailystyried hyn ar gyfer Mynegeion y dyfodol pan fydd data presgripsiynau gwell ar gael o bosibl. Fodd bynnag, byddai angen ystyried materion cysyniadol fel y defnydd o gyffuriau o'r fath at ddibenion eraill e.e. lleddfu poen, ac amrywiadau mewn arferion o ran rhoi presgripsiwn. Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yw'r ffynhonnell data.

Derbyniadau brys - Awgrymwyd y dangosydd hwn fel ffordd o fesur gofal sylfaenol a gofal iechyd ataliol gwael. Penderfynwyd peidio â'i gynnwys at y sail: ei fod yn mesur diffyg cyflenwad yn hytrach na diffyg iechyd; ac y gallai amrywiadau gweithredol fodoli rhwng ac o fewn adrannau brys. Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yw'r ffynhonnell data.

Gordewdra ymhlith plant - Mae hwn yn ddangosydd da posibl ar gyfer MALIC, gan ei fod yn dynodi nid yn unig iechyd gwael y plentyn ond hefyd gan fod gordewdra yn golygu y gallai ddioddef mwy o broblemau iechyd yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fydd digon o flynyddoedd o ddata ar gael ar gyfer MALIC 2014 gan Raglen Mesur Plant Cymru. Dylid ailystyried y dangosydd ar gyfer Mynegeion y dyfodol. Rhaglen Mesur Plant Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r ffynonellau data.

Disgwyliad oes iach/Marwolaeth y gellir ei hosgoi - Cafodd y mesurau hyn eu hawgrymu fel dewis amgen posibl i'r dangosydd cyfradd marwolaethau o bob achos. Gall disgwyliad oes iach fod yn arbennig o bwysig o gofio bod y boblogaeth yn prysur heneiddio. Yn anffodus, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cadarnhau bod y niferoedd yn rhy fach ar lefel AGEHI i'w cynnwys fel dangosyddion. Hefyd, mae'n debyg y byddai cydberthynas uchel rhwng y dangosyddion hyn a'r dangosyddion cyfradd marwolaethau o bob achos a'r salwch cyfyngus hirdymor sy'n gadarn ac ar gael i AGEHI. Gellir cael data ar lefel Awdurdod Lleol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Dangosyddion mamolaeth - Ystyriwyd y byddai'n ddymunol cynnwys dangosyddion mamolaeth fel bwydo ar y fron er nad oes digon o ddata ar gael ar hyn o bryd. Byddwn yn ailystyried hyn ar gyfer MALIC yn y dyfodol. Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yw'r ffynhonnell ddata.

5.3.3 Materion heb eu datrys

Mynychder clefydau cronig wedi'u diagnosio

Roedd y grŵp maes yn cytuno y byddai'n syniad da cynnwys dangosydd sy'n mesur mynychder clefydau cronig wedi'u diagnosio (e.e. clefyd cronig y galon, diabetes, iselder ac ati) a gofnodwyd gan feddygfeydd. Mae System Ansawdd Data ar gael i feddygfeydd yng Nghymru, yr anfonir canlyniadau cyfanrifol ohoni at storfa ganolog GIG Cymru. Efallai y bydd yn gallu darparu ffigurau am y rhai â diagnosis o glefydau cronig fesul AGEHI, yn seiliedig ar god post y claf. Fodd bynnag, mae contract newydd ar gyfer gweinyddu'r

system ar fin cael ei ddyfarnu, ac ni fydd manylion am alluogrwydd y system yn y dyfodol ar gael tan 2014. Rydym wrthi'n trafod cais i ddefnyddio'r data gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Mae nifer o faterion posibl yn effeithio ar gyfanrwydd, cywirdeb a mynediad i'r data hwn, ac sydd angen ymchwilio iddynt⁹:

- Nid yw'n system orfodol (wedi'i gosod mewn dros 95% o feddygfeydd) ac mae'r gyfradd dychwelyd data wythnosol oddeutu 90% fel arfer;
- Defnyddir y data yn bennaf i fonitro perfformiad meddygfeydd yn erbyn eu contract, ac felly dylid bod yn ofalus cyn ystyried ei defnyddio at ddibenion eraill;
- Mae meddygfeydd yn amrywio i ryw raddau o ran eu gwaith codio a chofnodi, ac efallai fod amrywiadau yn y data yn adlewyrchu blaenoriaethau a nodweddion meddygfeydd unigol.

Os bydd modd cael gafael ar ddata mewn pryd ar gyfer MALIC 2014, a bod sicrwydd ansawdd yn lleddfu'r pryderon a amlinellir uchod, yna bydd y grŵp maes yn ystyried yn fanylach pa glefydau neu gyflyrau i'w cyfrif, a sut y byddant yn cael eu cyfanrifo gyda'i gilydd er mwyn darparu un dangosydd o "fynychder clefydau cronig wedi'u diagnosis".

Cyfran y gofalwyr di-dâl

Awgrymwyd ein bod yn ystyried cynnwys mesur o lefelau gofal di-dâl o'r Cyfrifiad, er mwyn cofnodi amddifadedd iechyd posibl y gofalwr. Mae data'r Cyfrifiad¹⁰ yn awgrymu bod cyfran y gofalwyr di-dâl yn amrywio o 10% i 15% mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Gellir dadelfennu'r categori cyffredinol yn ôl nifer yr oriau gofal (1 i 19/20 i 49/50+). Er mwyn penderfynu a oes angen cynnwys dangosydd o'r fath, byddai angen inni ymchwilio i'r dystiolaeth o effaith darparu gofal di-dâl ar iechyd a lles y gofalwr, yn ôl yr oriau o ofal a ddarperir. Byddai angen ystyried pa mor gadarn yw'r data o ran y niferoedd fesul AGEHI hefyd. Mae data'r Cyfrifiad yn darparu dadansoddiad yn ôl deigradd amddifadedd, a disgrifir y berthynas ag amddifadedd yn y dyfyniad canlynol o ddadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol:

"Of interest is the lower level of provision of unpaid care in the more deprived deciles for the last two censuses in both England and Wales. This is surprising given that levels of either 'Very good' or 'Good' general health are lower in the more deprived deciles and rates of activity limitation are higher. A possible explanation for this could be that people in less deprived areas live longer, and therefore their populations are somewhat older and more at risk of surviving into states of dependency, whereas in the most deprived areas the mortality rate is higher... Another potential influence is where care is being provided. Those living in less deprived areas could be providing care for people in more deprived areas, where need is likely to be greater, which would counter any relationship with deprivation."

5.3.4 Materion ar gyfer ymateb

Isod, ceir rhestr o'r cwestiynau penodol a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu MALIC 2014. Nid ydynt yn gwestiynau hollgynhwysol, ac ni ddylent gyfyngu ar unrhyw ymateb perthnasol i'r maes hwn.

⁹ I gael rhagor o fanylion am y materion hyn, ewch i adran 5.4 y [Canllawiau Technegol](#) i Broffiliau Clystyrau Meddygfeydd, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2013

¹⁰ <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census-analysis/provision-of-unpaid-care-in-england-and-wales--2011/index.html>

- Yn amodol ar ansawdd data a datblygu data digonol, ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gynnwys dangosydd ar achosion o glefydau cronig lle cafwyd diagnosis?
- Yn amodol ar ymchwil bellach, ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnwys dangosydd ar "y gyfran o ofalwyr di-dâl"?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

5.4 Addysg

Diben y maes hwn yw nodi faint o amddifadedd sy'n gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant a sgiliau. Y nod yw adlewyrchu'r anfantais addysgol o fewn ardal yn nhermau diffyg cymwysterau a sgiliau. Mae'r dangosyddion arfaethedig yn nodi lefelau cyrhaeddiad isel ymhlith plant a phobl ifanc a diffyg cymwysterau ymhlith oedolion.

Cyfunir dangosyddion gan ddefnyddio dadansoddiad ffactor er mwyn pennu faint o bwysoliad ddylid ei roi ar bob dangosydd o fewn y maes.

5.4.1 Dangosyddion arfaethedig

Cafodd y dangosyddion a ddefnyddiwyd yn MALIC 2011 eu hadolygu, yn ogystal â'r dangosyddion hynny a wrthodwyd ar gyfer MALIC 2008 (y tro diwethaf y cynhaliwyd ymgynghoriad). Mae'r dangosyddion arfaethedig wedi'u rhestru isod. Mae gwybodaeth dechnegol lawn am y dangosyddion cyfredol ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2011¹¹.

Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 (cyfartaledd tair blynedd) - Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys yn MALIC 2011. Mae'r dangosydd yn seiliedig ar ganlyniadau asesiadau athro ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu yng Ngrŵp Blwyddyn 6 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Nid yw'n statudol i ysgolion annibynnol ddarparu'r data hwn, felly nid ydynt wedi'u cynnwys. Ar hyn o bryd, dyma'r dangosydd mwyaf addas ar gyfer cyrhaeddiad ar lefel gynradd ac mae'n fesuriad cynnar o amddifadedd addysgol. Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion a system Casglu Data Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn.

Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4 wedi'i gapio (cyfartaledd tair blynedd) - Dyma newid bach i ddangosydd MALIC 2011 (sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach). Y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio yw'r pwyntiau cyfartalog fesul disgybl 15 oed ar gyfer pob gradd a enillir hyd at yr hyn sy'n cyfateb i 8 TGAU (h.y. 8 gradd TGAU gorau neu gyfwerth). Mae'r holl gymwysterau TGAU a chymwysterau galwedigaethol a gymeradwyir cyn 16 oed wedi'u cynnwys. Mae'r dangosydd hwn yn cynnwys lefelau cyrhaeddiad ar draws pob gallu. Cynigir sgôr pwyntiau wedi'i gapio gan fod hyn yn lleihau effaith polisi'r ysgol ar nifer y ceisiadau am gymwysterau. Y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru, yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn.

Cyfnod Allweddol 4 Lefel 2 Cynhwysol (cyfartaledd tair blynedd) - Mae hwn yn ddangosydd newydd, a'r bwriad yw ategu'r dangosydd sgôr pwyntiau wedi'i gapio. Mae'r dangosydd hwn yn mesur cyfran y disgyblion 15 oed sy'n llwyddo i gael cyfwerth â 5 gradd TGAU A*-C (gan gynnwys mathemateg a Chymraeg/Saesneg). Mae'r dangosydd wedi'i gynnwys fel mesuriad o'r disgyblion sy'n cwblhau addysg ysgol orfodol â'r sgiliau rhifedd a llythrennedd digonol. Bydd y dangosyddion Lefel 2 Cynhwysol a'r sgôr pwyntiau wedi'i gapio yn disodli'r sgôr pwyntiau Cyfnod Allweddol 4 ehangach gan eu bod yn mesur agweddau cyflenwol o amddifadedd addysgol ar ddiwedd addysg orfodol. Y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru, yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn.

¹¹ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/2011-technical-report/?lang=cy>

Cyfradd absenoldeb ailadroddus (cyfartaledd tair blynedd) - Mae hwn yn wahanol i ddangosydd MALIC 2011 (absenoldebau cyffredinol ar wahân ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd). Mae cysylltiad cydnabyddedig rhwng absenoldeb a chyrhaeddiad. Mae casglu gwybodaeth am absenoldeb disgyblion unigol yn golygu bod modd ystyried disgyblion sy'n absennol yn gyson erbyn hyn - ac felly wedi'u hamddifadu'n addysgol - yn hytrach nag ystyried lefelau absenoldeb cyffredinol. Diffiniad Llywodraeth Cymru o 'absenoldeb ailadroddus' yw disgybl sy'n colli 20% neu fwy o sesiynau hanner diwrnod yn yr ysgol. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod y trothwy 20% ar gyfer 'absenoldebau ailadroddus' yn rhy isel er mwyn cyfrifo dangosydd priodol ar lefel ardal fach. Mae nifer yr absenoldebau ailadroddus gan ddefnyddio trothwy o 15% yn uwch o lawer, ac mae'r Adran Addysg yn Lloegr¹² wedi dod i'r casgliad unwaith y byddwch yn rheoli amrywiaeth o nodweddion disgyblion, yna bydd disgyblion sy'n colli mwy nag 15% o sesiynau ysgol yn gostwng gradd ym mhob pwnc TGAU, o gymharu â'r rhai sy'n colli llai na 15% o sesiynau ysgol. Mae dadansoddiad hefyd yn dangos bod cydberthynas gref rhwng cyfradd absenoldeb ailadroddus gan ddefnyddio'r diffiniad 15% a'r diffiniad presennol o 20% ar gyfer absenoldeb parhaus ar lefel ardal fach yng Nghymru. Felly awgrymir y dylid defnyddio dangosydd ar gyfradd y disgyblion sy'n colli 15% neu fwy o sesiynau ysgol fel procsi ar gyfer absenoldeb parhaus at ddibenion MALIC 2014. Bydd y data yn seiliedig ar yr holl ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n mynychu ysgol a gynhelir. Y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion, Casglu presenoldeb, Llywodraeth Cymru, yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn.

Canran y bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed – Er y byddai mesuriad o nifer y bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn ffordd fwy cadarn o fesur amddifadedd addysgol ar gyfer pobl ifanc, nid oes modd cynnwys hyn (fel y nodir ar y dudalen nesaf). Fodd bynnag, gall y nifer nad ydynt yn parhau i fyd addysg uwch adlewyrchu diffyg cyfleoedd, a bydd yn effeithio ar gyrhaeddiad mewn cymwysterau lefel uwch (sy'n gysylltiedig â gweithgarwch economaidd a chyflog). Rhoddwyd ystyriaeth i ddangosydd sy'n edrych ar y gyfran sy'n mynd i addysg uwch o gofio lefel y cyrhaeddiad blaenorol. Er hynny, byddai angen data cyfatebol ar gyfer dysgwyr ôl-16 – ac nid yw ansawdd data dysgwyr cysylltiedig wedi'i asesu ar lefel ardal fach hyd yma, ac ni fydd modd gwneud y gwaith hwn cyn MALIC 2014. Y ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn fydd data cyfraddau cyfranogwyr ifanc gan yr Higher Education Funding Council for England, a byddai'n mesur y rhai a ymunodd yn ystod 2005-06 i 2010-11 (blynedd oedd academaidd).

Nifer yr oedolion 25-64 oed heb gymwysterau – Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys yn MALIC 2011. Dyma'r unig ffordd o fesur amddifadedd addysgol ymhlith oedolion. Oherwydd newidiadau diweddar i oedran pensiwn y wladwriaeth, bydd y dangosydd hwn yn ystyried rhai 25-64 oed. Cyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn.

5.4.2 Dangosyddion eraill a drafodwyd

Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 3 - Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys yn MALIC 2011. Ceir dau ddangosydd arfaethedig ar gyfer cyrhaeddiad uwchradd (Lefel 2 Cynhwysol a sgôr pwyntiau wedi'i gapio), sy'n cael eu hystyried yn ddigonol. Mae

¹² DFE-RR171 – A Profile of Pupil Absence in England

dadansoddiad yn dangos nad yw diddymu'r dangosydd hwn wedi cael fawr o effaith ar y maes yn gyffredinol. Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a'r system Casglu Data Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn.

Dangosyddion y Blynyddoedd Cynnar - Dim ond dwy flynedd o ddata sydd ar gael ar gyfer asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac felly nid yw ei addasrwydd at ddibenion MALIC wedi'i bennu hyd yma. Nodwyd y gallai dangosydd 'Dechrau'r ysgol' fod yn well, er nad oes data addas ar gael eto. Wrth i Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar ddatblygu, bydd mwy o ddangosyddion addas ar gael ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Dylid monitro hyn ar gyfer Mynegeion y dyfodol.

Profion Cenedlaethol - Cafodd profion cychwynnol y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol newydd (ar gyfer rhai ym mlynnyddoedd 2-9) eu cyhoeddi ym mis Awst 2013. Felly, mae'n rhy gynnar i bennu pa mor addas yw'r data hwn i fesur amddifadedd ar sail ardal yn 2014, gan fod angen sawl blwyddyn o ddata er mwyn asesu addasrwydd yn erbyn meini prawf y dangosydd. Fodd bynnag, gall fod yn ffynhonnell ddata gyfoethog ar gyfer Mynegeion y dyfodol gan fod pob disgybl yn sefyll y prawf hwn bob blwyddyn. Rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o gynnwys dangosydd o'r Profion Cenedlaethol yn y dyfodol.

Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) - Yn gysyniadol, byddai mesuriad o'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn addas ar gyfer mesur amddifadedd addysgol. Fodd bynnag, gan fod nifer y bobl ifanc NEET yn cael ei gasglu o arolwg sampl, a'r niferoedd yn weddol isel, nid oes modd cael dangosydd o hynny ar lefel ardal fach. Gellir cael data ar lefel Awdurdod Lleol o'r Arolwg Poblogaeth Flynyddol.

Oedolion â chymwysterau lefel 4 + - Awgrymwyd bod oedolion sydd â chymwysterau lefel gradd yn cael effaith ar blant o fewn yr ardal, ac y gellid eu hystyried yn arweinwyr yn y gymuned. Gellid dadlau bod ardaloedd â diffyg pobl â chymwysterau lefel 4 yn ddifreintiedig o safbwynt arweinwyr cymunedol. Fodd bynnag, nodwyd na ddylid ystyried rhai heb radd yn ddifreintiedig o reidrwydd, yn enwedig oherwydd dewis (h.y. efallai fod gan rywun y gallu i astudio ar lefel 4, ond ei fod wedi dewis peidio â gwneud hynny). Felly, penderfynwyd na fyddai'r dangosydd hwn yn ffordd o fesur amddifadedd addysgol ac na ddylid ei gynnwys. Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yw'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn.

5.4.3 Materion ar gyfer ymateb

Isod, ceir rhestr o'r cwestiynau penodol a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu MALIC 2014. Nid ydynt yn gwestiynau hollgynhwysol, ac ni ddylent gyfyngu ar unrhyw ymateb perthnasol i'r maes hwn.

- Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i hepgor y Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 3?
- Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer dau ddangosydd cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4?
- Beth yw'ch barn chi ar newid y dangosyddion Absenoldebau Cyffredinol i un sy'n seiliedig ar absenoldeb ailadroddus?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

5.5 Mynediad i wasanaethau

Diben y maes hwn yw nodi amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd. Mae'n cwmpasu amddifadedd materol¹³ (er enghraifft methu cael bwyd) ac agweddau cymdeithasol¹⁴ ar amddifadedd (e.e. methu mynd i weithgareddau ar ôl ysgol).

Nid yw'r mesuriad presennol o'r maes mynediad i wasanaethau yn ffordd uniongyrchol o fesur amddifadedd y gellir ei ddefnyddio ar ei ben ei hun, yn wahanol i'r saith maes arall; yn hytrach, mae'n ffactor cyfrannol sy'n dod yn bwysig fel agwedd ar amddifadedd lluosog. Hynny yw, mae mynediad gwael i wasanaethau yn ffactor a allai ddwysáu mathau eraill o amddifadedd sy'n bodoli yn yr ardal.

Fel mae pethau, dim ond materion mynediad cyfyngedig sydd wedi'u cwmpasu gan y maes hwn, er enghraifft, nid yw'n ystyried a ellir gwneud y daith unrhyw bryd neu a ellid defnyddio'r gwasanaeth heb orfod teithio (drwy'r rhyngwyd, ffôn, post).

Y dull o fesur mynediad ym Mynegeion y gorffennol, oedd yr amser a gymer i gyrraedd y gwasanaeth â bws ac ar droed, er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad fydd pob aelod o'r aelwyd yn gallu defnyddio cludiant modur preifat. Ar ôl trafod fodd bynnag, rydym nawr yn cynnig ehangu'r dulliau trafnidiaeth gyhoeddus i gynnwys trenau (yn ogystal â bysiau) ac ymgorffori trafnidiaeth breifat. Mae manylion a sail resymegol bellach ar gael dan yr adran Materion a Rhai Heb eu Datrys isod.

Yn y maes Mynediad i Wasanaethau, defnyddir dadansoddiad ffactor i bennu pwysoliadau'r dangosyddion cyfansoddol.

5.5.1 Dangosyddion arfaethedig

Cafodd y dangosyddion a ddefnyddiwyd yn MALIC 2011 eu hadolygu, yn ogystal â'r dangosyddion a wrthodwyd ar gyfer MALIC 2008 (pan gynhaliwyd yr ymgynghoriad diwethaf). Trafodwyd dangosyddion newydd posibl hefyd. Mae'r dangosyddion arfaethedig wedi'u rhestru isod. Mae gwybodaeth dechnegol lawn am y dangosyddion cyfredol ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2011¹⁵.

Siopau bwyd - wedi'i gynnwys o'r blaen. Dylai'r siop allu darparu nwyddau sylfaenol e.e. bara, llaeth. Mae angen yr eitemau hyn yn rheolaidd, a dylent fod ar gael o fewn amser teithio byr.

Meddygfeydd – wedi'i gynnwys o'r blaen. Mae'r dangosydd hwn yn cwmpasu anghenion bob dydd ar gyfer gofal iechyd sylfaenol. Mae'r set ddata pwyntiau o ddiddordeb i'w defnyddio ar gyfer 2014 yn cynnwys cyfeiriadau prif feddygfeydd neu bractisau, a byddwn hefyd yn ystyried data ar feddygfeydd cangen a all fod yn gyffredin mewn ardaloedd gwledig. Yn 2011, roedd 479 o brif feddygfeydd ac angen 219 o feddygfeydd cangen. Mae hwn yn swm digonol i gyfiawnhau eu cynnwys yn y dangosydd meddygfeydd. Bydd angen diweddarau'r data wrth gwrs, a gellir ei gael o wefan Galw Iechyd Cymru.

¹³ Mae amddifadedd materol yn golygu diffyg adnoddau ffisegol - bwyd, cysgod a dillad – sy'n angenrheidiol i gynnal safon bywyd penodol.

¹⁴ Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at anallu'r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

¹⁵ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/2011-technical-report/?lang=cy>

(<http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/localservices/searchlocalservices.aspx?s=GPSurgeries&locale=cy>).

Mae'r set ddata hon yn cynnwys gwybodaeth am amseroedd agor.

Ysgolion cynradd - wedi'i gynnwys o'r blaen. Mae'r ysgol gynradd yn rhan o fywyd bob dydd i'r rhan fwyaf o blant 4 i 11 oed, a'u rhieni/gwarcheidwaid (nid yw'r dangosydd hwn yn cynnwys ysgolion meithrin, arbennig nac annibynnol). Ni chynigir bod y dangosydd yn cynnwys bysiau ysgol a ddarperir gan awdurdodau lleol oherwydd y byddai'n anodd gwneud hynny, a'r cyfyngiadau amser y maent yn gweithredu ynddynt (e.e. ni fyddent yn caniatáu ar gyfer teithio adref ar ôl gweithgareddau ysgol). Rydym yn cynnig addasu'r dangosydd hwn trwy gysylltu â'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ac felly'n cyfyngu cyfrifiadau i aelwydydd â phlant sy'n mynychu ysgolion nad ydynt yn annibynnol ac ysgolion cynradd arbennig, yn wahanol i'r dull blaenorol o gynnwys pob aelwyd. Byddai'r pellter i'r ysgol(ion) agosaf yn cael ei gyfrifo wedyn a'i nodi fel cyfartaledd o fewn yr AGEHI ar gyfer aelwydydd perthnasol yn unig. Rydym yn ymchwilio i'r dull hwn ar hyn o bryd.

Ysgolion uwchradd - wedi'i gynnwys o'r blaen. Mae ysgol uwchradd yn rhan o fywyd bob dydd i lawer o blant 11-18 oed (nid yw'r dangosydd yn cynnwys ysgolion arbennig ac annibynnol), a'u rhieni/gwarcheidwaid. Darllenwch y manylion uchod ar Ysgolion Cynradd am fanylion eithrio bysiau ysgol, a'r posibilrwydd o ddefnyddio CYBLD i ganolbwyntio cyfrifiadau ar aelwydydd â phlant sy'n mynychu ysgolion nad ydynt yn annibynnol ac ysgolion uwchradd arbennig yn unig.

Swyddfa'r Post - wedi'i gynnwys o'r blaen. Mae llawer o bobl yn y gymuned angen mynediad wythnosol neu amlach i swyddfa bost. Gall gynnwys cyngor, cymorth, talu biliau, casglu budd-daliadau, postio a gwasanaethau eraill. Mae swyddfeydd symudol ar gael bellach. Mae'r data ar gael ar wefan Swyddfa'r Post (<http://www.postoffice.co.uk/>) sy'n cynnwys manylion am leoliad ac oriau agor bob pwynt aros.

Llyfrgell gyhoeddus – wedi'i gynnwys o'r blaen. Mae llyfrgelloedd yn cynnig gwasanaethau heblaw benthyca llyfrau ac mae'n elfen arall o'r rhwydweithiau cyfathrebu â'r cyhoedd. Bydd llyfrgelloedd yn cael eu cynnwys. Rydym wrthi'n ystyried pa mor ymarferol yw cael set ddata genedlaethol o fannau aros y gwasanaeth llyfrgell symudol gan y 22 awdurdod lleol.

Canolfan hamdden – wedi'i gynnwys o'r blaen. Nod y dangosydd hwn yw cwmpasu gallu'r unigolyn i gael gafael ar gyfleusterau sy'n bwysig i iechyd a lles. Byddwn yn cael data ar leoliadau gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Fferyllfeydd – dangosydd newydd arfaethedig. Fe'u defnyddir fel arfer i gynnal iechyd cyffredinol, ac maent yn ofynnol i lawer ar gyfer bywyd bob dydd. Fe'i hystyrir yn ychwanegiad defnyddiol posibl i'r maes oherwydd gallwn gynnwys meddygfeydd fferyllol (sy'n gyffredin mewn ardaloedd gwledig).

Gorsafoedd petrol – dangosydd newydd arfaethedig. Yn ofynnol i redeg car o ddydd i ddydd. Dim ond wrth gyfrifo'r amser teithio cyfartalog gan gludiant preifat y byddent yn cael eu cynnwys.

5.5.2 Dangosyddion eraill a drafodwyd

Deintydd y GIG - wedi'i gynnwys o'r blaen, nawr yn cynnig ei eithrio. Byddai'r rhan fwyaf o bobl ond yn defnyddio'r gwasanaeth bob chwe mis neu'n llai aml, ac felly efallai y byddant yn parhau gan ddefnyddio gwasanaeth nad yw'n lleol (er enghraifft myfyrwyr neu weithwyr proffesiynol ifanc yn gadael yr aelwyd). O'r blaen, roedd y dangosydd hwn yn cynnwys deintyddfeydd GIG waeth a oedd lle ar y gofrestr ai peidio. Mae'r rhan fwyaf o ddeintyddion yn gwneud cyfuniad o waith preifat a GIG (er enghraifft mae plant yn cael triniaeth am ddim), ac nid oes data canolog yn cael ei gasglu am faint o lefydd sydd ar gael drwy'r GIG, sy'n gallu amrywio o wythnos i wythnos.

Cyfnewidfeydd trafnidiaeth – wedi'i gynnwys o'r blaen, nawr yn cynnig ei eithrio. Nid yw'n ofynnol ar gyfer bywyd bob dydd ar y cyfan. Bydd y data trafnidiaeth gyhoeddus nawr yn cynnwys mynediad i drenau a fyddai, yn ogystal â cheir, yn cael eu defnyddio ar gyfer teithiau hirbell.

Mynediad i wasanaethau digidol – Dim ond mannau gwan ar gyfer derbyn band eang y byddai'r data sydd ar gael yn eu hystyried, ac efallai na fydd yn cynnwys band eang symudol.

Ysbytai damweiniau ac achosion brys - Mae'r rhain yn debygol o gael eu defnyddio'n llai aml a bod yn llai lleol na rhai gwasanaethau gofal iechyd eraill. Byddai gwasanaeth ambiwlans a chludiant ysbyty am ddim yn cymhlethu'r dangosyddion hyn, a byddai angen ystyried pa gategori adran damweiniau ac achosion brys i'w gynnwys.

Peiriannau twll yn y wal - Nid oes angen arian parod bob amser ar gyfer bywyd bob dydd; mae dewisiadau eraill: cerdyn, siec ac ati ar gael. Mae swyddfeydd post, sy'n gallu cynnig arian yn ôl yn ddi-dâl (*cashback*) wedi'u cynnwys fel dangosydd. Nid yw'n ymwneud ag arian parod o beiriannau yn unig, ond fwyfwy ag arian yn ôl mewn siopau.

Cyfleusterau gofal plant - Darpariaeth breifat yn bennaf. Mae'r gallu i dalu am ofal plant, yn hytrach na lleoliad yn dylanwadu'n fawr ar hyn. Felly, awgrymwyd ei fod yn fwy o ddangosydd maes incwm neu gyflogaeth. Mater arall i'w ystyried fyddai lleoliad y cyfleuster e.e. ger cyfeiriad y cartref neu'r gwaith. Ni fyddem yn gallu nodi gofal plant "anffurfiol" yn effeithiol e.e. ffrindiau a theulu.

Canolfannau cyflogaeth - Nid oes data parod ar gael, ac ni fyddem yn gallu cysylltu unigolion â'u cyflogaeth. Mae'n fwy perthnasol i amddifadedd cyflogaeth, ac efallai y bydd rhywfaint o orgyffwrdd.

Gwasanaethau cyfreithiol ac ariannol – Nid oeddynt yn cael eu hystyried yn wasanaethau lleol, nac yn hanfodol fel rhan o fywyd "bob dydd arferol".

5.5.3 Materion eraill

Tystiolaeth o Arolwg Cenedlaethol 2013-14

Yn yr arolwg cyfredol, gofynnir i ymatebwyr nodi'r dulliau trafnidiaeth a ddefnyddir i gyrraedd nifer o bwyntiau cyflenwi gwasanaethau. Gan y bydd atebion yr arolwg ar gael o hydref 2013 ymlaen, byddant yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol er mwyn cwblhau'r sefyllfa ar nifer o faterion heb eu datrys ar hyn o bryd.

Cynnwys trafnidiaeth breifat

Cafodd grŵp y maes hwn drafodaeth fanwl am y sail resymegol o blaid ac yn erbyn cynnwys trafnidiaeth breifat (ar y ffordd) yn y mesuriad. Y dewis sy'n cael ei ffafrio gan Grŵp Llywio MALIC yw cyfrifo'r amseroedd teithio ar y ffordd, a'u cyfuno ag amseroedd teithio â thrafnidiaeth gyhoeddus fel cyfartaledd wedi'i bwysoli. Mae'r sail resymegol dros

hyn yn cynnwys y ffaith bod MALIC, o fewn meysydd, yn mesur materion sy'n ymwneud â thestun y maes ar gyfer y boblogaeth gyfan, nid dim ond rhai sydd mewn tlodi incwm na allent fforddio trafndiaeth breifat o reidrwydd. Teithiau â char sydd fwyaf cyffredin yng Nghymru, ac felly ni allwn anwybyddu'r dull trafndiaeth hwn yn ein maes Mynediad i Wasanaethau.

Hefyd, sylwyd mai dim ond teithiau ffyrdd y mae Gogledd Iwerddon a Lloegr yn eu defnyddio yn eu meysydd cyfatebol nhw ar hyn o bryd, a bod yr Alban yn pwysoli trafndiaeth gyhoeddus a phreifat gyda'i gilydd, gydag oddeutu dwy ran o dair o bwyslais ar drafndiaeth breifat.

Trafndiaeth gyhoeddus hyblyg

Nodwyd bodolaeth gwasanaethau eraill heblaw am drafndiaeth gyhoeddus ag amserlen. Mae cynlluniau trafndiaeth hyblyg ond cyhoeddus eraill fel Bwcabus, 'bodio a theithio', ffonio a theithio ar gael hefyd, ond nid ydym wedi pennu dull o gynnwys gwasanaethau o'r fath. Mae problemau o ran casglu setiau data dibynadwy ar gyfer Cymru gyfan, felly ni fyddwn yn cynnwys trafndiaeth gyhoeddus hyblyg ar gyfer MALIC 2014.

5.5.4 Materion heb eu datrys

Cyfuno trafndiaeth breifat a chyhoeddus

Rydym wrthi'n ymchwilio i'r defnydd o ddata Cyfrifiad 2011 ar berchnogaeth ceir er mwyn pwysoli'r amseroedd teithio cyfartalog ar y ffordd yn ogystal â'r amseroedd teithio cyfartalog ar drafndiaeth gyhoeddus. Rydym yn cydnabod nad yw perchnogaeth car ar lefel aelwydydd yn dweud wrthym a yw unigolion ar yr aelwydydd hynny yn gallu defnyddio'r cerbyd yn ôl yr angen. Byddwn yn ystyried a allwn ni addasu'r data perchnogaeth car, er enghraifft trwy gymharu nifer y ceir â nifer yr oedolion 17 oed a throsodd ar yr aelwyd. Rydym yn trafod hyn ymhellach yn Atodiad E.

Cam cyntaf y broses hon fydd cyfrifo'r amseroedd teithio cyfartalog ar wahân ar gyfer pob gwasanaeth gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus a thrafndiaeth breifat. Mae'r dangosyddion ar gyfer y gwasanaethau dan sylw yn destun dadansoddiad ffactor fel bod modd eu cyfuno yn rhifau unigol (neu sgoriau) fesul AGEHI. Ar gyfer pob AGEHI, rydym yn cynnig defnyddio data'r Cyfrifiad i bennu'r pwysoliadau ar gyfer cyfuno mesurau trafndiaeth gyhoeddus a phreifat. Rydym yn dal i ystyried union drefn y cyfrifiadau hyn gan ei fod yn fater technegol, a bydd manylion llawn ar gael yn adroddiad technegol MALIC 2014.

Yn dilyn ymchwiliadau pellach ac ymatebion yr ymgynghoriad, bydd grŵp llywio'r MALIC yn gwneud penderfyniad terfynol ar gynnwys trafndiaeth gyhoeddus ai peidio, a sut i wneud hynny.

Cyfrifo amseroedd teithio cyfartalog

Rydym yn cynnig diweddarau'r dulliau a ddefnyddiwyd i gyfrifo amseroedd teithio ar gyfer dangosyddion 2013. Mae'r diweddariadau hyn yn adlewyrchu'r angen i symleiddio'r dulliau cyfrifo, ffynonellau data newydd a'r gwasanaethau ar-lein awtomatig sydd ar gael. Bydd y technegau newydd yn cael eu hyrwyddo fel dulliau safonedig, a hyd y gellir, byddwn yn sicrhau eu bod ar gael i bawb fel bod modd ailadrodd a defnyddio'r cyfrifiadau mewn ymchwiliadau manylach.

Yn y ddau achos, rydym yn symud oddi wrth y broses o gyfrifo pob cyfuniad posibl o deithio rhwng pob cyfeiriad aelwyd a'r pwyntiau gwasanaeth lluosog. Roedd hwn yn ddull hynod gymhleth, ac yn gofyn am gryn dipyn o amser staff ac amser cyfrifiadurol. Mae'r dull newydd yn cyflwyno'r cysyniad o fap cenedlaethol o amseroedd teithio, sy'n dangos y cyfuchliniau amser-teithio ar gyfer y wlad i gyd i'w cyfleuster agosaf. Ar ôl cynhyrchu'r cyfuchliniau hyn (map 'arwyneb' ar sail sgwâr grid), gallwn wedyn greu tabl o'r amser teithio ym mhob lleoliad aelwyd yng Nghymru. Gwelir enghraifft o'r arwyneb wedi'i gyfrifo ar gyfer amseroedd teithio trafndiaeth gyhoeddus ar dudalen 30, ffigur 1.

Mae esboniad manwl o'r algorithmau sydd i'w defnyddio wrth gyfrifo'r arwynebau amser-teithio ar gyfer trafndiaeth breifat a chyhoeddus i'w weld yn atodiad F. Ym mhob achos, mae nifer o barametrau a ddefnyddir yn y cyfrifiadau y gellir eu haddasu, gan gynnwys:


- Teithio â bws/trên – amser o'r dydd/dydd o'r wythnos (mae'r enghraifft a welir yn Atodiad F yn defnyddio bore yn ystod yr wythnos ym mis Hydref, ar gyfer cyrraedd yr ysgol erbyn 9 a.m);
- Data cyfartalog aelwydydd neu ddefnyddio AGEHI craidd priodol (gwerthoedd cyfartalog ar gyfer aelwydydd sydd orau, fel o'r blaen);
- Caniatáu ar gyfer pellter cerdded ar ddechrau neu ddiwedd y siwrnai (hyd at 800 metr o daith gerdded a ddefnyddiwyd o'r blaen);
- Ardaloedd clustogi er mwyn cynnwys y rhai sy'n mynd dros y ffin yn Lloegr (30 munud o amser teithio a ddefnyddiwyd o'r blaen).

Dull amgen – dalgylchoedd sy'n amrywio

Mae tîm WISERD ym mhrifysgolion Caerdydd, De Cymru ac Abertawe wedi cynnal gwaith ymchwil i fireinio'r dull o asesu pa mor hygyrch yw gwasanaethau¹⁶. Eu gwaith oedd cyfrifo ffigur mwy cyffredinol ar gyfer mynediad i wasanaethau ar gyfer pob aelwyd sy'n caniatáu ar gyfer sgôr uwch lle mae gan aelwydydd fynediad posibl i fwy nag un pwynt gwasanaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen amcangyfrî'r capasiti tebygol ym mhob pwynt gwasanaeth, sy'n seiliedig ar rai o nodweddion hysbys y gwasanaeth hwnnw (e.e. nifer y meddygon teulu mewn meddygfa, nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol). Defnyddir y ffigur capasiti i gyfrifo'r dalgylch posibl trwy gyfrif nifer yr aelwydydd mewn bandiau o bellter cynyddol oddi wrth y gwasanaeth. Yn y modd yma, mae llawer o aelwydydd o fewn dalgylch mwy nag un pwynt gwasanaeth. Bydd yr aelwydydd hyn yn cael y sgoriau uchaf.

Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo er mwyn gwerthuso'r posibiliadau o ran defnyddio'r dull hwn, gan gynnwys gwerthusiad manwl o set ddata brawf wedi'i chyfrifo. Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar ddiwedd 2013. Mae'r prif feysydd trafod yn cynnwys dewis a dethol y ffigur capasiti, a dull arfaethedig o gynnwys trafndiaeth gyhoeddus yn ogystal â phreifat.

¹⁶ Gweler yr erthygl yn WISERD News No. 6. Ar gael yn: <http://www.wiserd.ac.uk/news/wiserd-news-magazine/>



Ffigur 1 - Enghraifft o arwyneb amser-teithio ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus. Y lliw coch yw'r teithiau byrrach a'r glas a phiws yw'r amseroedd teithio hirach.

5.5.5 Materion ar gyfer ymateb

Isod, ceir rhestr o'r cwestiynau penodol a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu MALIC 2014. Nid ydynt yn gwestiynau hollgynhwysol, ac ni ddylent gyfyngu ar unrhyw ymateb perthnasol i'r maes hwn.

- Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau, yr ychwanegiadau, a'r eithriadau o'r rhestr gwasanaethau arfaethedig ar gyfer MALIC 2014?
- Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i gyfuno trafndiaeth gyhoeddus a phreifat?
- Beth yw'ch barn chi ar y dull cyfrifo amseroedd teithio dewisol?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

5.6 Diogelwch cymunedol

Nod y maes hwn yw ystyried amddifadedd sy'n gysylltiedig â byw mewn cymuned ddiogel. Mae'n cynnwys union brofiad o drosedd a tân, yn ogystal â syniad pobl o ddiogelwch wrth fynd a dod yn yr ardal leol.

Cyfunir dangosyddion gan ddefnyddio dadansoddiad ffactor er mwyn pennu faint o bwysoliad ddylid ei roi ar bob dangosydd o fewn y maes. Nid yw'r maes hwn yn cynnwys unrhyw is-feysydd.

5.6.1 Dangosyddion arfaethedig

Cafodd y dangosyddion a ddefnyddiwyd yn MALIC 2011 eu hadolygu, yn ogystal â'r dangosyddion a wrthodwyd ar gyfer MALIC 2008 (pan gynhaliwyd yr ymgynghoriad diwethaf). Trafodwyd dangosyddion newydd posibl hefyd. Mae gwybodaeth dechnegol lawn am y dangosyddion cyfredol i'w weld yn Adroddiad Technegol MALIC 2011¹⁷.

Ni awgrymir newidiadau ar gyfer dangosyddion troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu¹⁸. Cynigir newidiadau ar gyfer y dangosydd tân. Rydym yn cynnig cynnwys dangosydd achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, os yw ansawdd y data yn ddigon da. Os felly, rydym yn bwriadu gollwng y dangosyddion pobl ifanc ac oedolion sy'n troseddu. Mae'r dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2014 wedi'u rhestru isod.

Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu (cyfartaledd dwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn nodi profiad gwirioneddol o drosedd. Fel yn MALIC 2011, mae'r achosion (troseddau) wedi'u cofnodi gan bedwar gwasanaeth heddlu'r¹⁹ wlad (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, De Cymru a Gwent). Mae'r achosion hyn wedi'u neilltuo i'r pwynt lle digwyddodd y drosedd, a'u dyrannu i'r ardal gynnyrch ehangach haen is (AGEHI) briodol.

Dyma'r codau trosedd i'w cynnwys:

- 28 A,B,C + D Bwrgleriaeth annedd;
- 29 Bwrgleriaeth waethygedig mewn annedd;
- 30 A + B Bwrgleriaeth mewn adeilad ac eithrio annedd;
- 31 Bwrgleriaeth waethygedig mewn adeilad ac eithrio annedd.

Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu (cyfartaledd dwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn cofnodi profiad gwirioneddol o drosedd. Fel yn MALIC 2011, mae'r achosion (troseddau) wedi'u cofnodi gan bedwar gwasanaeth heddlu'r wlad (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, De Cymru a Gwent). Mae'r achosion hyn wedi'u neilltuo i'r pwynt lle digwyddodd y drosedd, a'u dyrannu i'r ardal gynnyrch ehangach haen is (AGEHI) briodol.

Dyma'r codau troseddau i'w cynnwys:

- 56 A + B Tân bwriadol;
- 58A Difrod troseddol i annedd;
- 58B Difrod troseddol i adeilad ac eithrio annedd;
- 58C Difrod troseddol i gerbyd;
- 58D Difrod troseddol arall;
- 58E Difrod troseddol gwaethygedig i annedd ar sail hil neu grefydd;

¹⁷ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/2011-technical-report/?lang=cy>

¹⁸ Byddwn yn monitro canlyniadau Archwiliad Cywirdeb Data Troseddau Cenedlaethol Arolygiaeth Cwnstablïaeth ei Mawrhydi, Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Ystadegau Troseddau ac unrhyw waith perthnasol arall, ac yn gwneud unrhyw newidiadau neu roi cafeat ar ddata fel bo'r angen.

¹⁹ Mae diffiniadau'r NCRS o droseddau a gofnodir gan yr heddlu i'w gweld yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/the-national-standard-for-incident-recording-nsir-counting-rules>

- 58F Difrod troseddol gwaethygedig i adeilad ac eithrio annedd, ar sail hil neu grefydd
- 58G Difrod troseddol gwaethygedig i gerbyd ar sail hil neu grefydd ;
- 58H Difrod troseddol gwaethygedig arall ar sail hil neu grefydd;
- 59 Bygythiad neu feddiant gyda bwriad i achosi difrod troseddol.

Dwyn a gofnodir gan yr heddlu (cyfartaledd dwy flynedd) - mae'r dangosydd hwn yn nodi profiad uniongyrchol o drosedd. Fel yn MALIC 2011, mae'r achosion (troseddau) wedi'u cofnodi gan bedwar gwasanaeth heddlu'r wlad (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, De Cymru a Gwent). Mae'r achosion hyn wedi'u neilltuo i'r pwynt lle digwyddodd y drosedd, a'u dyrannu i'r ardal gynnyrch ehangach haen is (AGEHI) briodol.

Dyma'r codau troseddau i'w cynnwys:

- 37/2 Dwyn gwaethygedig o gerbyd;
- 39 Dwyn oddi wrth unigolyn;
- 45 Dwyn o gerbyd;
- 48 Dwyn neu fynd â cherbyd modur heb ganiatâd;
- 126 Ymyrryd â cherbyd.

Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu (cyfartaledd dwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn cofnodi profiad gwirioneddol o drosedd. Fel yn MALIC 2011, mae'r achosion (troseddau) wedi'u cofnodi gan bedwar gwasanaeth heddlu'r wlad (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, De Cymru a Gwent). Mae'r achosion hyn wedi'u neilltuo i'r pwynt lle digwyddodd y drosedd, a'u dyrannu i'r ardal gynnyrch ehangach haen is (ACEHI) briodol.

Dyma'r codau troseddau i'w cynnwys:

- 1 Llofruddiaeth
- 2 Ymgais i lofruddio
- 3 A, B + C Bygythiad neu gynllwynio i lofruddio
- 4/1 Dynladdiad
- 4/2 Mabanladdiad
- 5 A B + C, Anafu neu weithred arall sy'n bygwth bywyd
- 6 Peryglu teithiwr trên
- 7 Peryglu bywyd ar y môr
- 8F, G + K, Anaf arall
- 8L, 9A Aflonyddu
- 8H & J Anaf gwaethygedig arall ar sail hil neu grefydd
- 8M & 9B Aflonyddu gwaethygedig arall ar sail hil neu grefydd
- 11 Creulondeb i ac esgeuluso plant
- 12 Gadael plentyn dan ddwy oed
- 37/1 Achos marwolaeth trwy achos gwaethygedig o gymryd cerbyd
- 105A Ymosodiad cyffredin
- 105B Ymosodiad cyffredin gwaethygedig ar sail hil neu grefydd
- 34A Dwyn eiddo busnes
- 34B Dwyn eiddo personol
- 81 Deddf Drylliau 1968 a Deddfau Drylliau eraill

Achosion o dân (cyfartaledd dwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn nodi profiad gwirioneddol o dân. Yn MALIC 2011, cafodd achosion o brif danau yn ogystal â thanau "cerbydau gadawedig" eu casglu fel cyfrifon gan AGEHI. Cafodd tanau "cerbydau gadawedig" eilaidd eu cynnwys dim ond os oeddynt ar gael ar lefel AGEHI. O gofio

datblygiadau data, mae pob math o dân wedi'i geo-godio erbyn hyn, ac mae'r grŵp maes yn cynnig cynnwys pob achos o danau ar gyfer MALIC 2014.

Mae prif danau yn cynnwys "yr holl danau mewn adeiladau, cerbydau a strwythurau tu allan neu unrhyw dân sy'n cynnwys anafiadau, achubiaeth, neu danau yr ymatebwyd iddynt gan ddefnyddio pump neu fwy o gerbydau tân". Mae tanau eilaidd yn cynnwys "y rhan fwyaf o danau awyr agored gan gynnwys glaswelltir a sbwriel ac eithrio rhai sy'n cynnwys anafiadau, achubiaeth, colli eiddo neu os yw pump neu fwy o gerbydau tân yn ymateb iddynt".

Ymddygiad a throseddwy'r gwrthgymdeithasol

Cynigiwyd cynnwys dangosydd achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn MALIC yn hytrach na'r dangosyddion pobl ifanc neu oedolion sy'n troseddu (gan fod y ddau wedi'u cynnwys fel procsi ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned). Ceir disgrifiad o'r ddau ddewis isod, gan ein bod wrthi'n ymchwilio i addasrwydd y data ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Y dewis a ffefrir: Achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol – mae'r dangosydd hwn yn gysylltiedig â phrofiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae dangosydd ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'i ystyried ar gyfer MALIC blaenorol, ond roedd yna bryderon nad oedd y data'n gyffelyb ym mhob gwasanaeth heddlu. O 2011-12 ymlaen, cyflwynwyd Safon Genedlaethol ar gyfer Cofnodi Digwyddiadau (NSIR²⁰) er mwyn cysoni'r gwaith o gofnodi achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nid yw ansawdd y data hwn wedi'i asesu hyd yma, fodd bynnag. Er bod achosion yn cael eu cofnodi dan NSIR yn unol â'r un dull 'sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr' a ddefnyddir gyda throseddau a gofnodir, nid yw'r ffigurau hyn yn ystadegau achrededig gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac nid ydynt yn destun yr un lefel o sicrwydd ansawdd â'r prif gasgliad o droseddau a gofnodir. Dylid dehongli niferoedd achosion fel achosion a gofnodwyd gan yr heddlu, yn hytrach na lefel wirioneddol erledigaeth. Mae asiantaethau eraill hefyd yn ymdrin ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol (er enghraifft, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol); ac ar y cyfan, ni fydd achosion a hysbysir yr asiantaethau hyn amdanynt yn cael eu cynnwys yn ffigurau'r heddlu. Mae'r data ar gyfer lluoedd Cymru wrthi'n cael ei gasglu er mwyn i dîm MALIC ei ddadansoddi, a dylai fod o ansawdd digon da, a dyma'r dewis a fyddai'n cael ei ffafrio i'w gynnwys yn MALIC 2014.

Dewis amgen: Cynnwys dangosyddion oedolion sy'n troseddu a phobl ifanc sy'n troseddu

Bydd y dangosyddion yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd yn MALIC 2011, a byddant yn gweithredu fel procsi ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned.

Canran yr oedolion sy'n troseddu (cyfartaledd dwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn gysylltiedig â syniad pobl o ddiogelwch a'r tebygrwydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r troseddwy'r dan sylw yn cynnwys rhai y mae timau troseddwy'r yn ymdrin â nhw, ac sy'n 18 oed a throsodd. Os oedd gan unigolyn fwy nag un cyfeiriad yn ystod y cyfnod, cafodd pob cyfeiriad ei gyfrif cyn belled â'i fod mewn AGEHI wahanol. Os oedd troseddwy'r lluosog mewn un cyfeiriad, yna defnyddiwyd pwysoliad o 2. Cafodd troseddwy'r sy'n byw mewn sefydliadau eu cynnwys yn y cyfrif os darparwy'r cyfeiriad preswyl.

²⁰ <https://www.gov.uk/government/publications/the-national-standard-for-incident-recording-nsir-counting-rules>

Canran y bobl ifanc sy'n troseddu (cyfartaledd dwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn gysylltiedig â syniad pobl o ddiogelwch a'r tebygrwydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu (PNC) yw ffynhonnell y data.

Troseddwy'r ifanc yw rhai:

- sydd wedi derbyn collfarn, cerydd neu rybudd (ac felly'n eithrio Hysbysiadau Cosb am Anhrefn) a broseswyd gan unrhyw heddlu rhanbarthol yng Nghymru neu Lloegr neu gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain (ac felly'n eithrio asiantaethau erlyn eraill);
- a oedd rhwng 10 ac 17 oed pan gawsant golffarn, gerydd neu rybudd (ac felly'n eithrio troseddwy'r dan 18 oed pan gyflawnwyd y drosedd ond oedd yn 18 oed neu'n hŷn adeg y golffarn, cerydd, rhybudd; a hefyd yn eithrio troseddwy'r heb ddyddiad geni dilys);
- sydd â chyfeiriad dilys, a gofnodwyd gan yr heddlu, yng Nghymru hyd yn oed os oedd y llu neu'r drosedd y tu allan i Gymru (ac felly'n eithrio troseddau yr aeth un o heddluoedd Cymru i'r afael â nhw, a gyflawnwyd gan droseddwy'r â chyfeiriad y tu allan i Gymru neu os na chofnodwyd cyfeiriad dilys ar gyfer yr achos hwnnw);
- sydd wedi cyflawni cod troseddu hysbys y Swyddfa Gartref (ac felly'n eithrio sefyllfaoedd lle'r oedd y brif drosedd yn dorcyfraith, trosedd na chyflawnwyd yng Nghymru a Lloegr neu drosedd anhysbys).

5.6.2 Dangosyddion eraill a drafodwyd

Troseddau yn ymwneud â chyffuriau

Credwyd bod y dangosydd hwn yn mesur blaenoriaethau plismona yn hytrach na lefelau amddifadedd gwirionedd, gyda thipyn mwy o achosion yn dilyn gwyliau neu ddigwyddiadau tebyg. Felly, gwrthodwyd ei gynnwys yn MALIC.

Troseddau rhywiol

Mae adroddiad "Sexual Offending Overview"²¹ yn archwilio gwybodaeth o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn ogystal â data'r heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol. Yn ôl yr arolwg (pobl 16-59 oed), menywod o aelwydydd â'r incwm isaf (o dan £10,000 y flwyddyn) oedd fwyaf tebygol o ddioddef troseddau rhywiol (3.8% o gymharu â 3% o'r holl fenywod). Dim ond 15% o'r menywod a ddioddefodd y troseddau rhywiol mwyaf difrifol (sy'n cynnwys treisio, ymgais i dreisio ac ymosodiad rhywiol) a ddywedodd iddynt hysbysu'r heddlu am y digwyddiad, sy'n awgrymu y byddai troseddau a gofnodir gan yr heddlu ond yn rhoi darlun rhannol o'r troseddau hyn, sy'n golygu nad yw'r dangosydd yn addas ar gyfer MALIC.

5.6.3 Materion heb eu datrys

Damweiniau ffyrdd

Mae bod mewn damwain car yn brofiad negyddol, ond gall byw mewn ardal ag achosion uchel o ddamweiniau hefyd effeithio ar syniad pobl o ddiogelwch. Bu grŵp y maes yn trafod y dystiolaeth sy'n awgrymu bod cerddwyr a beicwyr wedi'u hanafu mewn damweiniau ffyrdd yn gysylltiedig ag amddifadedd. Er mai'r farn gychwynnol oedd nad yw'r dangosydd hwn yn addas i MALIC gan fod y niferoedd yn isel ar lefel AGEHI, mae angen

²¹ <https://www.gov.uk/government/publications/an-overview-of-sexual-offending-in-england-and-wales>

ymchwilio ymhellach i'r niferoedd dros sawl blwyddyn yn yr AGEHI mwyaf difreintiedig (yn ôl y mesur hwn) cyn diystyru hyn. Hoffem gynnwys cerddwyr/beicwyr wedi'u hanafu yn unig, ond gan ein bod yn disgwyl i'r niferoedd fod yn rhy isel, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar y posibilrwydd o gynnwys pob damwain ffordd fel dangosydd o faterion diogelwch cymunedol posibl ar gyfer trigolion lleol (gan ddileu damweiniau traffyrdd o bosibl).

5.6.4 Materion ar gyfer ymateb

Isod, ceir rhestr o'r cwestiynau penodol a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu MALIC 2014. Nid ydynt yn gwestiynau hollgynhwysol, ac ni ddylent gyfyngu ar unrhyw ymateb perthnasol i'r maes.

- Ydych chi'n cytuno â'r dull a ffefrir o gynnwys achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol (os yw'r data'n ddigon cadarn) neu ddefnyddio data lleoliad troseddwyr (fel MALIC 2011)?
- Beth yw'ch barn chi ar ddefnyddio'r holl ddamweiniau ffyrdd fel dangosydd newydd, gan gymryd nad yw nifer y cerddwyr a'r beicwyr a gafodd eu hanafu yn ddigon cadarn ar gyfer MALIC?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion ar gyfer Mynegai 2014 (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

5.7 Amgylchedd ffisegol

Diben y dangosydd hwn yw mesur y ffactorau yn yr ardal leol a all effeithio ar les neu ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn yr ardal.

Yn gyffredinol, nid oes cydberthynas rhwng amddifadedd amgylcheddol ag amddifadedd cymdeithasol neu economaidd yng Nghymru (cyf: Walker et al 2003). Nid yw'r maes hwn yn nodi agweddau ar amddifadedd fel anghydraddoldebau iechyd (un o amcanion y maes lechyd). Dewiswyd dangosyddion sy'n dangos potensial uwch ar gyfer ansawdd bywyd is, ac a oedd ar gael yn hawdd.

Mae'r maes hwn wedi'i rannu'n dri is-faes. Rhoddir pwysoliad cyfartal (1/3) i bob is-maes. Mae'r is-faes ansawdd aer yn cynnwys dau ddangosydd (cryniad aer ac allyriadau aer) sydd â phwysoliad cyfartal o fewn yr is-faes.

5.7.1 Dangosyddion arfaethedig

Cafodd y dangosyddion a ddefnyddiwyd yn MALIC 2011 eu hadolygu, yn ogystal â'r dangosyddion a wrthodwyd ar gyfer MALIC 2008 (pan gynhaliwyd yr ymgynghoriad diwethaf). Mae'r dangosyddion arfaethedig wedi'u rhestru isod. Mae gwybodaeth dechnegol lawn am y dangosyddion cyfredol ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2011²²

Cyfran yr aelwydydd sydd mewn perygl o lifogydd – Cafodd dangosydd perygl llifogydd ei gynnwys yn MALIC 2011. Mae perygl llifogydd yn mesur cyfran yr aelwydydd sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd a'r môr. Mae'r risg yn seiliedig ar amllder disgwylidig yn hytrach na faint o ddifrod a achosir gan lifogydd. Rhoddir pwysoliad uwch i'r aelwydydd sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd o gymharu â rhai sydd mewn perygl is.

Fel o'r blaen, cynigir y bydd MALIC 2014 yn ystyried lefelau risg gwahanol. Bydd yr asesiadau risg yn newid yn 2014 yn unol â diffiniadau'r cwmnïau yswiriant, felly bydd y categorïau risg yn newid o:

- 1 o bob 75 neu lai
- 1 o bob 75-200
- 1 o bob 200+

I:

- 1 o bob 30 neu lai
- 1 o bob 30-100
- 1 o bob 100-1000
- 1 o bob 1000+

Cynigir defnyddio'r categorïau risg newydd ar gyfer MALIC 2014 os byddant ar gael. Bydd angen cytuno ar bwysoliadau newydd er mwyn cyfuno'r 4 categori risg yn un dangosydd. Os na fyddant ar gael mewn pryd, byddwn yn defnyddio'r categorïau risg cyfredol.

Asesiad bygythiad llifogydd cenedlaethol (NaFRA), Cyfoeth Naturiol Cymru, yw ffynhonnell y data ar gyfer y dangosydd hwn.

²² <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/2011-technical-report/?lang=cy>

Sgôr ansawdd aer amcangyfrifedig (dau ddangosydd ar Grynodiad Aer a Allyriadau Aer) - Cafodd y rhain eu cynnwys yn MALIC 2011. Fe'i crëwyd gan ddefnyddio mesuriadau llygryddion a all gael effaith negyddol ar iechyd pobl a/neu'r amgylchedd yn seiliedig ar y ddealltwriaeth feddygol a gwyddonol orau. Fe'i cynigir fel mesuriad procsi ar gyfer ansawdd yr amgylchedd amgylchynol. Mae ansawdd aer gwael yn awgrymu agosrwydd at weithgareddau penodol fel traffig, safleoedd hylsgsi domestig a safleoedd diwydiannol - gweithgareddau a all gael effaith negyddol ar ansawdd bywyd, yr amgylchedd lleol ac iechyd.

Cynigir cyflwyno mân newidiadau technegol i'r dangosyddion hyn yn sgil y Rheoliadau Ansawdd Aer newydd. Mae'r newidiadau wedi'u hamlinellu yn Atodiad G. Y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol drwy Cyfoeth Naturiol Cymru yw ffynhonnell y data ar gyfer y dangosyddion yma.

Cyfrifir y Dangosydd Crynodiad Aer gan ddefnyddio cyfuniad o ddata crynodiad (wedi'i fodeli ar ddata allyriadau aer) yn ogystal â'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

Mae data allyriadau aer yn darparu set dda o ddata cyflenwol sy'n cwmpasu llygryddion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y dangosydd crynodiad aer.

Sgôr agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol - Cafodd y dangosydd agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol ei ddefnyddio yn MALIC 2011. Ni chynigir unrhyw newidiadau. Cyfoeth Naturiol Cymru yw ffynhonnell y data ar gyfer y dangosydd hwn.

5.7.2 Dangosyddion eraill a drafodwyd

Agosrwydd at fan gwyrdd naturiol - Mae man gwyrdd naturiol yn cael ei ystyried yn ddylanwad cadarnhaol ar les pobl. Rhoddwyd ystyriaeth i ddangosydd a oedd yn ystyried cyfran yr aelwydydd o fewn 300m i fan gwyrdd naturiol hygyrch (ANGS) ac eithrio gerddi preifat. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n datblygu mapiau mannau gwyrdd naturiol hygyrch - mae mapiau o fannau posibl wedi'u cynhyrchu, a byddant yn cael eu hadolygu a'u newid gan awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn nesaf. Gan mai newydd ddechrau mae'r gwaith, mae'n rhy gynnar i bennu pa mor addas yw'r data hwn fel dangosydd posibl ar gyfer MALIC. Er hynny, bydd y gwaith yn cael ei fonitro a rhoddir ystyriaeth i gynnwys dangosydd mannau gwyrdd yn MALIC yn y dyfodol.

Llygredd sŵn – Byddai'r dangosydd hwn yn nodi'r holl ffynonellau sain a fyddai'n amddifadu pobl o amgylchedd da i fyw ynddo. Ystyriwyd cynnwys y dangosydd hwn mewn mynegeion blaenorol, ond cafodd ei wrthod ar sail diffyg ffynhonnell ddata briodol. Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran cwmpas y data hwn, mae'n anghyflawn o hyd. Hefyd, mae'n gorgyffwrdd rhywfaint â'r dangosydd agosrwydd i safleoedd gwaredu gwastraff/safleoedd diwydiannol.

Tipio anghyfreithlon - Mae tipio anghyfreithlon yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd ffisegol ac yn amddifadu pobl o amgylchedd da i fyw ynddo. Ystyriwyd defnyddio'r dangosydd hwn ar gyfer mynegeion blaenorol, ond cafodd ei wrthod ar sail diffyg ffynhonnell ddata briodol ar gyfer ardaloedd bach. Dyma'r achos o hyd.

Perygl llifogydd dŵr daear - Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi'n diweddarau'r Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Daear yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gwaith yn cael ei gynnal er mwyn helpu Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol a bodloni gofynion mapio'r Rheoliadau Perygl Llifogydd. Ar hyn o bryd, nid oes bwriad i ddiweddarau'r wybodaeth hon yn rheolaidd yng Nghymru, ac felly nid yw'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer MALIC. Dylid monitro'r gwaith hwn ar gyfer ei gynnwys yn MALIC yn y dyfodol.

Rhybudd llifogydd carthffosydd - Ystyriwyd dangosydd ar gyfran yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd carthffosydd mewnol. Mae asesiad cychwynnol o'r data yn dangos bod cyfran yr eiddo sydd mewn perygl ym mhob AGEHI yn fach iawn ledled Cymru. Nid yw'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer MALIC ac ni chafodd ei ystyried yn ddangosydd addas ar gyfer MALIC.

5.7.3 Materion ar gyfer ymateb

Isod, ceir rhestr o'r cwestiynau penodol a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu MALIC 2014. Nid ydynt yn gwestiynau hollgynhwysol, ac ni ddylent gyfyngu ar unrhyw ymateb perthnasol i'r maes.

- Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion ar gyfer Mynegai 2014 (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

5.8 Tai

Yn gysyniadol, diben y maes tai yw nodi amddifadedd trwy ddiffyg tai digonol, o ran cyflwr ffisegol y tai, amodau byw ac argaeledd.

Fodd bynnag, mae diffyg data priodol yn golygu nad oes modd mesur amddifadedd tai yn llawn yn ôl y diffiniad hwn.

5.8.1 Dangosyddion arfaethedig

Cafodd y dangosyddion a ddefnyddiwyd yn MALIC 2011 eu hadolygu, yn ogystal â'r dangosyddion a wrthodwyd ar gyfer MALIC 2008 (pan gynhaliwyd yr ymgynghoriad diwethaf). Trafodwyd dangosyddion newydd posibl hefyd. Mae gwybodaeth dechnegol llawn am y dangosyddion cyfredol ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2011²³.

Gorlenwi - Canran y boblogaeth sy'n byw mewn aelwydydd gorllawn. Mae aelwydydd gorllawn yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig o safbwynt mynediad i dai addas/o ansawdd.

Mae'r data hwn ar gael o Gyfrifiad 2011 ar lefel AGEHI. Mae dau sgôr meddiannaeth ar gael: meddiannaeth ystafell a meddiannaeth ystafell wely. Mae gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn esbonio'r termau hyn (metadata Cyfrifiad 2011)²⁴. Cynigir dangosydd yn seiliedig ar ddata meddiannaeth ystafell wely ar gyfer MALIC 2014 - yn unol â'r dulliau a ddefnyddiwyd mewn arolygon aelwydydd eraill. Yn y gorffennol, cafodd pob aelwyd myfyrwyr eu heithrio o'r data (ystafelloedd) gorllawn. O gofio'r diffiniad o 'orlenwi' yn achos ystafelloedd gwely, nid oes angen eithrio pob aelwyd myfyrwyr mwyach. Er nad yw'r Cyfrifiad yn ffynhonnell ddelfrydol ar gyfer dangosydd MALIC (gan nad yw'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd), mae prinder data tai ar lefel ardal fach ac felly fe'i hystyrir yn briodol yn yr achos hwn.

Ansawdd (procsi) – Gweler o dan Materion heb eu datrys.

5.8.2 Dangosyddion eraill a drafodwyd

Diffyg gwres canolog - Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys mewn sawl MALIC blaenorol. Er bod data am ddiffyg gwres canolog ar gael yng Nghyfrifiad 2011, nid yw'n cael ei ystyried yn ddangosydd addas o amddifadedd tai mwyach. Efallai fod system gwres canolog ar gael mewn cartrefi, ond nid yw hynny'n golygu bod pobl yn gallu fforddio ei defnyddio. Hwyrach ei bod yn annigonol neu'n anaddas. Hefyd, dim ond tua 2% o aelwydydd Cymru sydd heb wres canolog erbyn hyn.

Digartrefedd - Gellir ystyried digartrefedd fel y math mwyaf eithafol o amddifadedd o ran mynediad i dai. Byddai'n ddangosydd dymunol i'w gynnwys, er mai dim ond ar lefel awdurdod lleol y mae data am ddigartrefedd ar gael ar hyn o bryd. Byddwn yn ailasesu pa mor addas yw'r data ar gyfer MALIC yn y dyfodol.

Tai fforddiadwy - Amddifadedd yn nhermau diffyg mynediad i dai addas. Byddai'r dangosydd hwn yn ystyried cymhareb incwm â chostau tai cyfartalog. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ystyried yn fesur priodol ar gyfer ardal fach – mae pobl yn aml yn chwilio am

²³ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/2011-technical-report/?lang=cy>

²⁴ <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-user-guide/quality-and-methods/quality/quality-notes-and-clarifications/index.html>

dŷ o fewn ardal fwy nag un AGEHI. Hefyd, byddai dangosydd o'r fath yn gofyn am ddefnyddio amcangyfrifon incwm aelwydydd ar lefel ardal fach – sydd ond ar gael ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Uwch (AGEHU) ar hyn o bryd.

Tlodi tanwydd – Diffinnir hyn fel aelwydydd sy'n gwario 10% o'u hincwm ar gostau tanwydd, ar ôl costau tai. Nid yw data ar lefel AGEHI ar gael ar hyn o bryd, ac mae cysylltiad agos â'r maes incwm hefyd. Efallai y byddai dangosydd effeithlonrwydd ynni yn fwy addas.

Adfeddiannu a throï allan – Nid oes data ar gael ar gyfer y lefel ardal fach ofynnol, ac mae'r un problemau ag ar gyfer tai fforddiadwy yn berthnasol i'r dangosydd hwn. Nid yw'n addas i'w gynnwys, felly.

Ansawdd tai - Gall mesuriad ansawdd tai fel cyfran y tai sy'n bodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru fod yn ffordd briodol o fesur amddifadedd tai (er mai dim ond tai cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys). Er hynny, mae diffyg data cyffredinol ar gyfer yr holl stoc tai oherwydd diffyg arolwg cenedlaethol diweddar yng Nghymru. Dylid monitro datblygiadau'r dyfodol o safbwynt arolwg eiddo - a phe cynhelir arolwg o eiddo tai yn y dyfodol, dylid ystyried modelu canlyniadau ar lefel ardal fach.

5.8.3 Materion heb eu datrys

Mae diffyg data addas ar gyfer y maes Tai ar lefel ardal fach. Nid oes gwybodaeth ar gael am ansawdd tai, er y gellid defnyddio procsi.

Y dewis y bydden yn ei ffafrio fyddai defnyddio sgoriau Gweithdrefnau Asesu Safonol fel procsi cyffredinol ar gyfer ansawdd tai. Mae tai sy'n perfformio'n wael o ran effeithlonrwydd ynni yn anoddach/drutach i'w cynhesu. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried y potensial o ddefnyddio gwybodaeth Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). Mae angen y dystysgrif hon ar gyfer tai sy'n cael eu hadeiladu, eu gwerthu neu brydlesu, ac mae'n darparu manylion am berfformiad ynni'r eiddo a beth ellir ei wneud i'w wella. Pe bai'r gwaith o ystyried potensial gwybodaeth Tystysgrif Perfformiad Ynni yn mynd rhagddo, byddwn yn asesu pa mor addas yw sgoriau'r Gweithdrefnau Asesu Safonol o ddata'r tystysgrifau - o ran cwmpas, cysondeb ac ydynt yn cynnwys y data diweddaraf. Os daw ymchwiliadau i'r casgliad bod y data yn addas, cynigir cynnwys dangosydd ar effeithlonrwydd ynni.

5.8.4 Materion ar gyfer ymateb

Isod, ceir rhestr o'r cwestiynau penodol a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu MALIC 2014. Nid ydynt yn gwestiynau hollgynhwysol, ac ni ddylent gyfyngu ar unrhyw ymateb perthnasol i'r maes.

- A yw'n briodol mai dim ond un dangosydd (gorlenwi) sydd gan y maes hwn os mai dyna'r oll sydd ar gael?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y dangosyddion arfaethedig / a wrthodwyd, neu unrhyw awgrymiadau ychwanegol (o gofio ein meini prawf ar gyfer dangosyddion)?

6 Mynegai Plant a mynegeion posibl eraill

6.1 Mynegai Plant

Yn 2008, cyhoeddwyd Mynegai Plant ar wahân am y tro cyntaf a chafodd ei ddiweddarau yn 2011. Ar hyn o bryd, fersiwn dalfyredig o'r Mynegai llawn ydyw - mae'n cynnwys dangosyddion dethol o'r mynegai MALIC cyffredinol (rhai sy'n berthnasol i blant). Mae'r Mynegai Plant yn fesuriad swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru mewn perthynas â phlant ac fe'i datblygwyd fel dull o nodi a deall amddifadedd ymhlith plant yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth am y Mynegai Plant ar gael yn: <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy>

Rydym yn ystyried dyfodol hirdymor y Mynegai Plant. Gan ei fod yn deillio o ddangosyddion sydd eisoes ar gael yn y prif MALIC yn unig nid yw o reidrwydd yn cynnwys y dangosyddion gorau sydd ar gael o amddifadedd plant mewn rhai meysydd (e.e. iechyd). Er mwyn datblygu'r mynegai plant fel mesur annibynnol gyda dangosyddion a meysydd priodol, byddai angen cryn dipyn o adnoddau ychwanegol.

Hyd y gwyddom, dim ond defnydd cyfyngedig a wnaed o'r Mynegai Plant yn ddiweddar – yn enwedig ers cyhoeddi data dangosyddion MALIC bob blwyddyn ar wefan StatsCymru. Felly, hoffem glywed mwy ynglŷn â'r modd mae pobl yn defnyddio'r Mynegai Plant (ar ei ffurf bresennol) ar hyn o bryd.

Rydym yn cynnig parhau i gyhoeddi'r Mynegai Plant ar ei ffurf bresennol – yn gynnar yn 2015 er mwyn dilyn ymlaen i MALIC 2014. Wedyn byddwn yn ystyried pa mor ymarferol yw darparu dadansoddiad yn ôl oedran wrth gyhoeddi data dangosyddion MALIC bob blwyddyn yn StatsCymru fel dull amgen posibl. Gall datblygiadau cysylltu data gynnig cyfleoedd pellach i ddadansoddi data plant yn y dyfodol.

6.2 Mynegeion posibl eraill

Roedd ein hymgyngoriad yn 2007 yn gofyn am sylwadau ar is-fynegeion posibl, ac roedd yr ymatebion yn awgrymu bod gan bobl ddiddordeb mewn mynegai pobl hŷn. Ategwyd hyn yn ymgynghoriad 2009, a oedd yn gofyn a fyddai mynegai o'r fath yn ddefnyddiol; pa ddiffiniad o "berson hŷn" fyddai fwyaf defnyddiol; ac a fyddai data dangosyddion yn ôl oedran yn diwallu anghenion defnyddwyr. Roedd rhywfaint o ddiddordeb yn yr opsiwn gael mynegai, er bod ymatebwyr yn credu ar y cyfan y dylid rhoi blaenoriaeth i gynnal dadansoddiad pellach o'r data dangosyddion sylfaenol, a allai gwmpasu diffiniadau gwahanol o bobl hŷn. Fel y nodwyd uchod, byddwn yn ystyried pa mor ymarferol yw dadansoddi yn ôl oedran yn y data dangosyddion blynyddol.

Yn yr un broses ymgynghori (2009), nododd rhai ymatebwyr fod MALIC yn eithaf gwan o ran lleoli amddifadedd gwledig, gan awgrymu y dylid naill ai creu mynegai gwledig neu ddangosyddion sy'n fwy gwledig benodol. Roedd ein hymateb i'r ymgynghoriad yn nodi:

Er ein bod yn cydnabod bod amddifadedd gwledig yn fater pwysig, ni fydd llunio Mynegai Gwledig yn rhan o gynllun gwaith MALIC. Mewn ardaloedd gwledig, mae pobl ddifreintiedig yn tueddu i fod ar wasgar fwy yn ddaearyddol nag mewn ardaloedd trefol. Felly, er bod amddifadedd yn bodoli mewn ardaloedd gwledig, nid

yw MALIC yn adnodd addas i ddod o hyd iddo. Yn y bôn, mae unrhyw bocedi o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod ar raddfa llawer yn llai na hyd yn oed graddfa fach y ddaearyddiaeth a ddefnyddir i gynhyrchu MALIC, ac felly mae eu cyfraniad i'r cyfartaledd yn yr ardaloedd hyn yn tueddu i gael ei foddi gan boblogaethau mwy o faint, llai amddifad. Felly, hyd yn oed pe defnyddiwyd dangosyddion sy'n fwy penodol i ardaloedd gwledig, ni fyddai trefn safleoedd MALIC sy'n seiliedig ar ardaloedd yn datgelu'r amddifadedd sydd ar wasgar ymysg Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is gwledig.

Fodd bynnag, fe wnaethom gynnig mynd i'r afael ag amddifadedd gwledig trwy ddadansoddi'r dangosyddion MALIC sylfaenol, sydd wedi'u grwpio ers hynny yn ôl eu dosbarthiad gwledig-trefol Ystadegau Gwladol fel rhan o waith StatsCymru. Trwy hyn, gellir cael dealltwriaeth lawnach o'r gwahaniaethau o ran mathau a difrifoldeb yr amddifadedd mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth gwahanol.

6.3 Cwestiynau i'w hystyried

- Disgrifiwch eich defnydd o'r Mynegai Plant ar ei ffurf bresennol.
- Yn y tymor hirach, a ddylid rhoi'r flaenoriaeth i ddadansoddi data sylfaenol MALIC (gan gynnwys yn ôl oedran lle bo modd) yn hytrach na chynhyrchu'r Mynegai Plant ar ei ffurf bresennol?

7 Y camau nesaf

Mae'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 28 Tachwedd 2013, a **27 Chwefror 2014 yw'r dyddiad cau ar gyfer ymateb.**

Cynhelir gweminar ymgynghori (seminar ymgynghori ar-lein) ar 16 Rhagfyr trwy gyfrwng y Saesneg, ac yn y Gymraeg ar 17 Rhagfyr. Bydd yn cynnwys cyflwyniad i'r cynigion a chyfle i ofyn cwestiynau. I gael rhagor o fanylion am y gweminarau ac i gofrestru, ewch i <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/consultation-webinar/?lang=cy>

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno yn ôl i'r grwpiau maes, grŵp cynghori MALIC a grŵp llywio MALIC. Mae rhestr aelodaeth y grwpiau hyn i'w gweld yn Atodiad C.

Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2014. Byddwn yn treulio haf 2014 yn dadansoddi ac yn cynhyrchu MALIC wedi'i ddiweddarau, cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol tua diwedd 2014.

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar y cynigion ar gyfer MALIC 2014 sydd heb eu cynnwys eisoes.

7.1 Cwestiynau i'w hystyried

- Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar gynigion ar gyfer MALIC 2014 (na chyfeiriwyd atynt eisoes) neu waith ar MALIC yn y dyfodol?

Atodiad A: Methodoleg

Ar gyfer pob AGEHI, rhoddir sgôr ar gyfer 8 maes (neu fath) gwahanol o amddifadedd, gyda'r AGEHI mwyaf difreintiedig yn cael sgôr o 1, a'r lleiaf difreintiedig yn cael sgôr o 1909. Wyth maes amddifadedd MALIC yw:

- incwm
- ieuchyd
- diogelwch cymunedol
- tai
- cyflogaeth
- addysg
- mynediad daearyddol i wasanaethau
- amgylchedd ffisegol

Mae rhagor o wybodaeth am y technegau a ddefnyddiwyd yn MALIC ar gael yn adroddiad technegol MALIC 2011²⁵.

Llunio MALIC

Cam 1: Casglu data

Mae data gweinyddol a data'r Cyfrifiad o ffynonellau swyddogol amrywiol yn cael ei gasglu a'i ddyrannu i bob AGEHI. Defnyddir data gweinyddol yn benodol gan ei fod yn gadarn a dibynadwy ar lefel ardal fach. Mae dangosyddion wedi'u hadolygu gan grwpiau maes sydd â gwybodaeth benodol am ffynonellau'r data a dangosyddion posibl.

Cam 2: Paru data â lefel AGEHI neu godau post

Ni ddyrennir data i AGEHI fel rhan o'r broses gasglu yn gyffredinol. Mae setiau data gwahanol yn amrywio yn ôl lefel eu codau daearyddol ac felly mae angen defnyddio dulliau gwahanol. Mae setiau data yn perthyn i un o'r categorïau canlynol, a ddangosir yn ôl y drefn a ffeirir yn nhermau ansawdd data:

- i. mae data wedi'i geogodio, a gellir ei ddyrannu i'r union AGEHI gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS);
- ii. mae data yn cynnwys y cyfeiriad post llawn a gellir ei ddyrannu i'r union AGEHI drwy dablau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol;
- iii. mae data wedi'i godio gyda rhyw fath arall o ddaearyddiaeth ardal fach (e.e. cod post yn unig) a gellir ei ddyrannu i'r AGEHI yn yr un modd, gan ddefnyddio'r dull gweddu orau (mewn ychydig o achosion)

Os nad yw'r cofnodion data unigol o safon digon da i baru ag AGEHI, ar ôl glanhau data, yna defnyddir techneg dosrannu (gweler Atodiad A adroddiad technegol MALIC 2011).

Cam 3: Creu dangosyddion

Mae angen cyfrifiadau pellach gyda rhai dangosyddion er mwyn dod yn ddangosydd MALIC. Mae llawer o'r dangosyddion yn cael eu mynegi fel cyfraddau (e.e. cyfradd difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu) ac wedi'u cyfrifo trwy rannu nifer y cyfrif o droseddau troseddol ar lefel AGEHI â'r amcangyfrif poblogaeth priodol ar gyfer yr AGEHI honno.

Mae tri o'r dangosyddion a ddefnyddir yn y maes ieuchyd yn defnyddio dull safoni ar sail oedran a rhyw. Y nod yw cywiro'r dangosyddion ar gyfer y dosbarthiadau oedran a rhyw gwahanol ymhlith poblogaethau AGEHI. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn disgwyl gweld cyfraddau marwolaeth uwch ymhlith poblogaeth sy'n heneiddio nag un sy'n cynnwys teuluoedd ifanc yn bennaf. Mae'r dull safoni yn ceisio addasu ar gyfer y gwahaniaethau poblogaeth hyn, er mwyn gallu cymharu ardaloedd yn uniongyrchol. Am

²⁵ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/2011-technical-report/?lang=cy>

ragor o wybodaeth, gweler y papur technegol a gyflwynwyd i'r grŵp Maes Iechyd (3 Mai 2011)²⁶.

Cam 4: Creu mynegeion

Y dull a ffeirir ar gyfer creu mynegeion dangosyddion yw trwy ddadansoddi ffactorau, gan fod hyn yn ceisio canfod un ffactor sylfaenol ar gyfer y maes. Ar hyn o bryd, mae'r dull o greu mynegeion yn amrywio yn ôl y data sydd ar gael. Mae'r dulliau wedi'u hamlinellu isod, yn nhrefn blaenoriaeth.

a. Dadansoddiad ffactorau

Yn y meysydd Iechyd, Addysg, Mynediad i Wasanaethau a Diogelwch Cymunedol, defnyddir y dadansoddiad ffactorau techneg ystadegol i gyfuno'r dangosyddion amddifadedd. Mae dadansoddiad ffactorau yn ffordd o asesu i ba raddau y gall cyfres o ddangosyddion fesur yr un ffactor neu syniad sylfaenol. Trwy ddadansoddi'r berthynas rhwng dangosyddion, mae modd dod i gasgliadau ynglŷn â'r ffactor cyffredin ac, yn sgil hynny, amcangyfrif 'sgôr ffactor' (a ddefnyddir fel mynegai'r maes) ar gyfer pob AGEHI. Ni ellir cynnal dadansoddiad ffactorau gyda 2 ddangosydd neu lai. Am fwy o wybodaeth, gweler Atodiad C adroddiad technegol MALIC²⁷.

b. Meysydd â 2 ddangosydd neu lai

Mae'r meysydd Incwm a Chyflogaeth yn cynnwys un dangosydd, â chyfrifon wedi'u dad-ddyblygu, y gellir ei grynhoi a'i fynegi fel canran o'r boblogaeth. Ar gyfer MALIC 2014, cynigir cynnwys un dangosydd yn unig yn y maes Tai. Felly, nid oes angen dadansoddi ffactorau gan fod y meysydd hyn eisoes yn cynnwys mesuriad unigol.

c. Is-feysydd

Mae dangosyddion yn y maes Amgylchedd Ffisegol yn cael eu trin fel is-feysydd, sy'n cael eu trawsnewid yn sgoriau yn yr un modd â'r meysydd (gweler cam 4), yna'u cyfuno gan ddefnyddio pwysoliadau cyfartal.


Mae'r maes Amgylchedd Ffisegol yn cynnwys pedwar dangosydd sy'n ffurfio tri is-faes. Mae'r canraddau ar gyfer ansawdd aer ac allyriadau aer yn cael eu nodi fel cyfartaledd er mwyn creu trydydd is-faes. Ni ellir defnyddio dadansoddiad ffactorau yma gan nad oes un ffactor sylfaenol ar gyfer yr Amgylchedd Ffisegol.

Cam 5: Trawsnewid y mynegeion

Er mwyn lleihau'r graddau y mae diffyg amddifadedd mewn un maes yn diddymu amddifadedd mewn maes arall, cymhwysir trawsnewidiad esbonyddol i bob mynegai dangosydd:

$$T = -23 \ln \left(1 - R \left[1 - e^{-\frac{100}{23}} \right] \right)$$

Ar ôl ei drawsnewid mae'r data yn ymddangos fel hyn:



²⁶ <http://wales.gov.uk/docs/statistics/meeting/110516healthinden.pdf>

²⁷ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/2011-technical-report/?lang=cy>

Lle mai R yw safle'r AGEHI wedi'i rannu â 1909. Mae'r trawsnewidiad yn rhoi sgoriau o rhwng 0 a 100 ar gyfer pob AGEHI unigol, ar ar gyfer pob un o'r meysydd. Am fwy o wybodaeth, gweler Atodiad D adroddiad technegol MALIC 2011²⁷.

Cam 6: Cyfuno'r meysydd

Mae'r mynegai wedyn yn cael ei greu o swm a bwysolwyd o'r sgoriau ar gyfer pob maes. Mae'r pwysoliadau yn adlewyrchu pwysigrwydd y maes o safbwynt amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion sydd ar gael ar gyfer y maes hwnnw. Ar gyfer MALIC 2014, rydym yn bwriadu defnyddio'r un dangosyddion a'r rhai a ddefnyddiwyd yn 2011. Gweler y rhestr isod.

Maes	Pwysoliad
Incwm	23.5 %
Cyflogaeth	23.5 %
Iechyd	14.0 %
Addysg	14.0 %
Mynediad i wasanaethau	10.0 %
Diogelwch cymunedol	5.0 %
Amgylchedd ffisegol	5.0 %
Tai	5.0 %

Yna, mae'r sgoriau wedi'u pwysoli yn cael eu trefnu yn ôl graddfeydd, ar gyfer pob AGEHI.

Atodiad B: Uned ddaearyddol

Uned ddaearyddol

Cynigir defnyddio'r 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) a ddefnyddiwyd i gyfrifo ardaloedd daearyddol MALIC 2011.

Defnyddiwyd AGEHI fel uned ddaearyddol yn MALIC 2005, 2008 a 2011, a chawsant eu cynllunio er mwyn cyflwyno adroddiadau ar ystadegau ardaloedd bach. Mae AGEHI hefyd yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir gan dair gwlad arall y DU ar gyfer eu mynegeion nhw.

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach

Yn sgil Cyfrifiad 2001, aeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ati i ddatblygu hierarchaeth ddaearyddol o'r enw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach (ACE). Fe'u cynlluniwyd er mwyn gwella'r dull o gofnodi ystadegau ardaloedd bach yng Nghymru a Lloegr. Erbyn hyn, mae ystadegau swyddogol yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar gyfer daearyddiaeth ACE, lle maent ar gael.

Mae tair haen o ACE: Haen Is, Haen Ganol, a Haen Uwch. Y rheswm am hyn oedd bod gofynion datgelu yn golygu bod modd rhyddhau rhai setiau o ddata ar gyfer ardaloedd llawer llai nag eraill. Felly, er mwyn cefnogi amrywiaeth o ofynion data posibl, penderfynwyd creu'r tair haen arbennig hon. Dyma'r cyfyngiadau:

- Rhaid i ACE Haen Is gynnwys isafswm poblogaeth o 1,000. Rhaid i faint cymedrig yr holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is fod yn agos i 1,600. Maent yn seiliedig ar grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch y Cyfrifiad (rhwng 4 a 6 fel arfer).
- Rhaid i ACE Haen Ganol gynnwys isafswm poblogaeth o 5,000. Rhaid i faint cymedrig yr holl Ardaloedd Cynnyrch fod yn agos i 7,200.

Newidiadau rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011

Mae ffiniau ACE yn cael eu diwygio ar ôl bob Cyfrifiad, er mwyn ystyried newidiadau mewn poblogaeth. MALIC 2014 fydd y mynegai cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r ffiniau diwygiedig yn sgil Cyfrifiad 2011. Yng Nghyfrifiad 2001, roedd 1,896 AGEHI - mae 49 wedi dod i ben erbyn hyn, a 61 o rai newydd wedi'u creu.

Cyflwynwyd newidiadau i ffiniau AGEHI ar sail y canlynol:

- roedd y boblogaeth yn rhy fawr, felly rhannwyd yr AGEHI yn ddwy ardal;
- roedd y boblogaeth yn rhy fach, felly cyfunwyd AGEHI/AGEHG ag ardal gyfagos; neu
- mae'r boblogaeth wedi newid yn sylweddol, felly bu cyfuniad o'r ddwy sefyllfa uchod.

Mewn rhai achosion, bu newidiadau yn dilyn yr Ymgynghoriad ar Ganlyniadau Daearyddol a gynhaliodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2010. Lle'r oedd AGEHI wedi newid, cafodd yr hen god ei ddileu a dynodwyd un newydd yn ei le. Er hwylustod, neilltuwyd enwau Cymraeg a Saesneg i bob cod AGEHI. Mae enw pob AGEHI wedi'i bennu gan yr Awdurdod Lleol perthnasol.

Mae'r tabl isod yn dangos faint o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd ym mhob ardal awdurdod lleol yn y wlad.

Awdurdod Lleol	Nifer yr ACE Haen Is
Ynys Môn	44
Gwynedd	73
Conwy	71
Sir Ddinbych	58
Sir y Fflint	92
Wreccsam	85
Powys	79
Ceredigion	46
Sir Benfro	71
Sir Gaerfyrddin	112
Abertawe	148
Castell-nedd Port Talbot	91
Pen-y-bont ar Ogwr	88
Bro Morgannwg	79
Rhondda Cynon Taf	154
Merthyr Tudful	36
Caerffili	110
Blaenau Gwent	47
Torfaen	60
Sir Fynwy	56
Casnewydd	95
Caerdydd	214

Adrannau etholiadol

Yr adrannau etholiadol (neu wardiau yn flaenorol) oedd yr unedau daearyddol sylfaenol a ddefnyddiwyd ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2000, ond roedd anfanteision i'r dull hwn.

Mae adrannau etholiadol yn amrywio'n fawr o ran maint, o oddeutu mil o bobl i 20,000 (yng Nghymru). Nid yw'n ddelfrydol ar gyfer gwneud cymariaethau ledled Cymru, ac mae hefyd yn golygu na all data y gellir ei ryddhau yn ddiogel ar gyfer adrannau etholiadol mwy gael ei ryddhau ar gyfer adrannau etholiadol llai oherwydd rheolau datgelu (hynny yw, yr angen i ddiogelu cyfrinachedd unigolion).

Mae ffiniau adrannau etholiadol yn newid. Mae hyn yn creu problemau wrth geisio cymharu data o gyfnodau amser gwahanol. Penderfynodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddatblygu amrywiaeth o ardaloedd a fyddai'n gyson o ran maint ac na fyddai eu ffiniau yn newid yn rheolaidd.

Atodiad C: Aelodau'r Grŵp Llywodraethu

Mae'r Atodiad hwn yn rhestru'r holl aelodau sy'n cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r cynigion ar gyfer MALIC 2014. Noder nad yw pob aelod yn mynychu pob cyfarfod.

Tim MALIC

Luned Jones – Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
Nia Jones – Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
Craiger Solomons – Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
David Hunt – Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
Annabel Williams – Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Aelodau'r Grŵp Llywio

Steve Marshall (Cadeirydd) – Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru
Glyn Jones – Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru
Jonathan Price – Prif Economegydd Llywodraeth Cymru
Mike Harmer – Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
Gary Haggaty – Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth Cymru, Materion Gwledig
Terri Thomas – Polisi Amaethyddol Llywodraeth Cymru
Eleanor Marks – Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth Cymru, yr Is-adran Gymunedau
Paul Dear – Polisi'r Gymuned a'r Trydydd Sector Llywodraeth Cymru
Michael Curties – Uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru
Charles Coombs – Cymorth Polisi Llywodraeth Cymru, FCS
Bethan Bateman/Beverley Morgan – Uned Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Tîm MALIC

Aelodau'r Grŵp Cyngori

Rachel Dolman – Tim Casglu Data Llywodraeth Cymru
David Fone – Prifysgol Caerdydd
Nathan Lester – Iechyd Cyhoeddus Cymru
Susan Williams – Cyfoeth Naturiol Cymru
Andrew Stephens – Uned Ddata Cymru
Vicki Doyle – Cyngor Sir Caerffili
Scott Orford – Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru
a chynrychiolwyr Tîm MALIC

Aelodau'r Grwpiau Meysydd

Incwm a Chyflogaeth

John Morris – Ystadegau'r Economi a'r Farchnad Lafur Llywodraeth Cymru
Sara Ahmad – Economegydd Cynorthwyol Llywodraeth Cymru
David Blackaby – Prifysgol Abertawe
Stephen King – Cyngor Sir Abertawe
Stuart Grant – Adran Gwaith a Phensiynau
a chynrychiolwyr Tîm MALIC

Iechyd

Cath Roberts – Ystadegau Iechyd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru
Gwyneth Thomas – Ystadegau Iechyd Sylfaenol a Chymuned Llywodraeth Cymru
Chris Roberts – Ymchwil Iechyd Llywodraeth Cymru
Chris Tudor-Smith – Is-adran Gwella Iechyd Llywodraeth Cymru
Neil Riley – Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nathan Lester – Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gareth John – Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
Gareth Williams – Prifysgol Caerdydd
Ceri White - Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru
a chynrychiolwyr Tîm MALIC

Addysg

Steve Hughes – Ystadegau Ysgolion Llywodraeth Cymru
Abigail Woodham – Ystadegau Ysgolion Llywodraeth Cymru
Chris Williams – Ystadegau Addysg Ôl 16 Llywodraeth Cymru
Martin Parry – Polisi Addysg Llywodraeth Cymru
Andy Milne – Polisi Llywodraeth Cymru - Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Mike Jones – Cyngor Dinas Abertawe
Sioned Cardew Richardson – Estyn
Chris Taylor – Prifysgol Caerdydd
a chynrychiolwyr Tîm MALIC

Diogelwch Cymunedol

Gareth Hewitt – Pennaeth Gwasanaeth Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru
Helen Griffiths – Cangen Tân a Lluoedd Arfog Llywodraeth Cymru
Phillip Davies – Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru
Helen Innes – Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu
Brett Davis – Ystadegydd Heddlu'r De
a chynrychiolwyr Tîm MALIC

Amgylchedd Ffisegol

Rhiannon Caunt – Ystadegau Tai Llywodraeth Cymru
James Morris – Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd Llywodraeth Cymru
Charlotte Gibson – Arweinydd Polisi Effeithlonrwydd Ynni ac Arbed Ynni yn y Gymuned Llywodraeth Cymru
Barbara McLean – Uwch Swyddog Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru
Julie Boswell – Cyfoeth Naturiol Cymru
Helena Sykes – Cyfoeth Naturiol Cymru
Pete Frost – Cyfoeth Naturiol Cymru
a chynrychiolwyr Tîm MALIC

Tai

Rhiannon Caunt – Ystadegau Tai Llywodraeth Cymru
Sara James – Uwch Swyddog Ymchwil Tai Llywodraeth Cymru
Steve Palmer – Strategaeth Tai Llywodraeth Cymru

Amanda Oliver – Cartrefi Cymunedol Cymru
Steve Wilcox – Prifysgol Caerefrog
Sue Finch – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Bob Smith – Prifysgol Caerdydd
a chynrychiolwyr Tîm MALIC

Mynediad i Wasanaethau

Steve Marshall (Cadeirydd) - Prif Swyddog Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
Stuart Neil – Ystadegau Amaethyddol Llywodraeth Cymru
Bill Oates – Daearyddiaeth a Thechnoleg Llywodraeth Cymru
Henry Small – Ystadegau Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru
Terri Thomas – Polisi Amaethyddol Llywodraeth Cymru
Natalie Grohmann – Polisi Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru
Dianne Greaves – Cyngor Sir Powys
Gareth Phillips - Daearyddiaeth a Thechnoleg
a chynrychiolwyr Tîm MALIC

Atodiad D: Dangosyddion MALIC 2011

Incwm

- canran y rhai yn unrhyw un o'r categorïau isod: sy'n derbyn budd-daliadau seiliedig ar incwm; mewn aelwyd sy'n derbyn Credydau Treth gyda phlentyn dibynnol ac incwm sy'n llai na 60% o ganolrif Cymru; ceisiwr lloches a gefnogir gan y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches.

Cyflogaeth

- canran sy'n derbyn budd-daliadau seiliedig ar gyflogaeth.

Iechyd

- mynychder canser
- cyfradd marwolaethau o bob achos
- canran genedigaethau sengl byw < 2.5kg
- salwch cyfyngus hirdymor

Addysg

- sgorau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- sgorau cyfartalog Cyfnod Allweddol 3
- sgorau cyfartalog Cyfnod Allweddol 4
- canran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i addysg uwch
- canran yr oedolion 25-59/64 oed heb gymwysterau
- canran absenoldebau hanner diwrnod mewn ysgolion cynradd
- canran absenoldebau hanner diwrnod mewn ysgolion uwchradd

Diogelwch Cymunedol

- canran y troseddwyd sy'n oedolion
- bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu
- difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu
- achosion o dân
- lladrad a gofnodir gan yr heddlu
- troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu
- canran y troseddwyd ifanc

Mynediad i Wasanaethau

- amser teithio cymedrig ar fws ac ar droed at ddeintydd y GIG
- amser teithio cymedrig ar fws ac ar droed i'r siop fwyd
- amser teithio cymedrig ar fws ac ar droed at y meddyg
- amser teithio cymedrig ar fws ac ar droed i'r ganolfan hamdden
- amser teithio cymedrig ar fws ac ar droed i'r llyfrgell
- amser teithio cymedrig ar fws ac ar droed i swyddfa'r post
- amser teithio cymedrig ar fws ac ar droed i'r ysgol gynradd
- amser teithio cymedrig ar fws ac ar droed i'r ysgol uwchradd
- amser teithio cymedrig ar fws ac ar droed i'r gyfnewidfa drafnidiaeth

Tai

- canran y boblogaeth sy'n byw mewn cartrefi heb wres canolog
- canran y boblogaeth sy'n byw mewn cartrefi gorlawn

Amgylchedd ffisegol

- allyriadau aer
- ansawdd aer
- perygl llifogydd
- agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol

Atodiad E: Mynediad i Wasanaethau - cyfuno amseroedd teithio trafndiaeth gyhoeddus a phreifat

Fel yr amlinellir dan “Materion heb eu Datrys” yn y bennod Mynediad i Wasanaethau, rydym wrthi'n ymchwilio i'r defnydd o ddata Cyfrifiad 2011 ar berchnogaeth car er mwyn pwysoli'r amseroedd teithio cyfartalog ar y ffyrdd â'r amseroedd teithio cyfartalog ar drafndiaeth gyhoeddus. Cofiwch nad yw mynegeion amddifadedd gwledydd eraill y DU yn mesur mynediad trwy drafndiaeth gyhoeddus neu'n cymhwyso pwysoliad unigol (traean) i deithiau trafndiaeth gyhoeddus.

Hoffem gymhwyso pwysoliadau ar lefel AGEHI, gan adlewyrchu'r amrywiadau sylweddol a all fodoli o fewn ardaloedd ehangach, er enghraifft, ar lefel awdurdod lleol neu genedlaethol (gweler y tabl ar ddiwedd yr atodiad hwn). Mae hyn yn awgrymu defnyddio data'r Cyfrifiad fel bod ffigurau AGEHI yn ddigon cadarn. Mae nifer y cerbydau trwyddedig wedi newid ar raddfa arafach ers 2007 (ar ôl dangos cynnydd cyson ers degawd a mwy), sy'n awgrymu y byddai defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer mynegai 2014 yn dderbyniol gan nad ydym yng nghanol cyfnod o gynnydd sylweddol o ran stoc cerbydau. Roedd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys cwestiwn am berchnogaeth car/fan a chwestiwn am deithio i'r gwaith, gyda'r geiriad isod. Rydym wedi hepgor y cwestiwn olaf at ein dibenion ni, gan mai teithiau ehangach yn hytrach na chymudo i'r gwaith sydd o ddiddordeb i ni, ac nid yw'r data yn rhoi unrhyw awgrym o ddulliau cludiant arferol i bobl ddi-waith neu rai sy'n gweithio gartref (tua thraean o bobl).

Rydym yn cydnabod nad yw perchnogaeth car/fan ar lefel aelwydydd yn dweud wrthym a allai'r unigolion ar yr aelwydydd hynny ddefnyddio'r cerbyd pan fo'r angen. Byddwn yn ceisio gweld a allwn ni addasu'r data perchnogaeth car er mwyn adlewyrchu mynediad i'r cerbyd yn well, er enghraifft trwy gymharu nifer y cerbydau â nifer yr oedolion 17 oed a throsodd sy'n byw yn y cartref.

Dylid nodi bod Arolwg Cenedlaethol Cymru yn gofyn i ymatebwyr a ydynt yn gallu defnyddio car i wneud gweithgareddau fel ymweld â siopau lleol neu fynd at y meddyg. Nid yw maint y sampl flynyddol yn rhoi data cadarn ar gyfer AGEHI, ond gall fod yn ddefnyddiol er mwyn dangos y gwahaniaeth rhwng unigolion sydd â mynediad i gar, a'r aelwydydd sy'n berchen ar gar. Yn 2011/12, dywedodd 79% o oedolion bod ganddynt ddefnydd o gar, sy'n cymharu â'r 77% o aelwydydd sy'n berchen ar o leiaf un car/fan yn ôl Cyfrifiad 2011. Er y gall patrymau amrywio yn ôl ardal, ar lefel Cymru gyfan, nid yw'n awgrymu bod nifer sylweddol o oedolion sy'n methu cael gafael ar gerbyd er eu bod yn byw mewn cartref sy'n berchen ar un neu fwy o gerbydau.

Byddem yn defnyddio'r Arolwg Cenedlaethol a data cyd-destunol arall ar ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus er mwyn dilysu casgliadau o'n dadansoddiadau o'r Cyfrifiad a chwblhau'r pwysoliadau i'w defnyddio wrth gyfuno dulliau trafndiaeth gyhoeddus a phreifat.

Rydym wrthi'n dadansoddi effaith debygol y dull newydd hwn ar y mynegai. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd y gallwn ei gynnal ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu i archwilio'r data ar amseroedd teithio a gasglwyd ar gyfer y Cynllun Trafndiaeth Cenedlaethol (yn hytrach na MALIC 2011), sy'n darparu ffigurau ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus a phreifat i wasanaethau dethol (llai na'r rhai y cynigir eu cynnwys yn y MALIC). Er eu bod yn ddefnyddiol er mwyn cael syniad o'r newidiadau tebygol, byddwn yn dehongli y casgliadau gyda gofal gan fod y dull arfaethedig o gyfuno'r dulliau trafndiaeth, y gwasanaethau a gwmpasir a'r dull o fesur amseroedd teithio oll yn debygol o newid.

Perchnogaeth car fesul AGEHI, Cyfrifiad 2011

Sawl car neu fan sy'n eiddo i aelodau o'ch cartref, neu sydd ar gael i'w defnyddio ganddynt? Dylech gynnwys unrhyw gar (geir) neu fan (faniau) cwmni os yw ar gael at ddefnydd preifat

Teithio i'r gwaith, Cyfrifiad 2011

Sut ydych chi'n teithio i'r gwaith fel arfer? Ticiwch un blwch yn unig. Ticiwch y blwch ar gyfer y rhan hiraf, o ran pellter, o'ch taith arferol i'r gwaith.

- Gweithio'n bennaf gartref neu o'r cartref
- Tacsï
- Teithiwr mewn car neu mewn fan
- Beic modur, moped neu sgwter
- Gyrru car neu fan
- Trên
- Bws neu fws mini
- Trên tanddaearol, metro, tram neu reilffordd ysgafn
- Beic
- Cerdded
- Arall

Mae'r tabl isod yn dangos data Cyfrifiad 2011 ar berchnogaeth un neu fwy o geir neu faniau ar lefel Awdurdod Lleol (o'r isaf i'r uchaf), gyda'r amrywiad ar lefel AGEHI. Mae amrywiaeth y gwerthoedd AGEHI o fewn awdurdodau lleol (e.e. amrywio o dan 60% i dros 96% yn AGEHI Powys) yn cefnogi defnyddio pwysoliadau ar lefel AGEHI, yn hytrach na'r ddaearyddiaeth ehangach.

Awdurdod Lleol	Canran yr aelwydydd ag o leiaf un car	Gwerth AGEHI canolrif	Gwerth AGEHI isaf	Gwerth AGEHI uchaf
Merthyr Tudful	70.3	72.2	46.6	90.9
Caerdydd	71.0	73.1	37.6	96.7
Blaenau Gwent	71.0	70.6	51.0	87.0
Casnewydd	72.1	74.0	38.8	97.8
Rhondda Cynon Taf	72.9	71.4	48.7	97.4
Abertawe	74.2	78.0	25.2	96.6
Castell-nedd Port Talbot	74.5	76.0	45.9	93.8
Caerffili	75.6	75.8	45.4	95.9
Torfaen	76.4	74.9	53.0	95.6
Wrecsam	77.8	80.1	37.4	96.4
Pen-y-bont ar Ogwr	78.1	77.8	54.5	98.5
Conwy	78.3	80.2	51.2	94.0
Gwynedd	78.6	82.2	48.6	94.3
Sir Ddinbych	79.0	80.9	31.0	95.2
Bro Morgannwg	80.6	82.6	57.6	97.1
Sir Gaerfyrddin	81.2	83.7	44.6	97.3
Ceredigion	81.6	87.4	45.2	93.7
Ynys Môn	82.0	86.3	50.6	93.5
Sir Benfro	82.1	84.5	55.8	96.3
Sir y Fflint	83.0	86.1	56.2	97.5
Sir Fynwy	84.8	87.4	60.7	97.5
Powys	85.0	89.6	57.4	96.1
Cymru	77.1	78.8	25.2	98.5

Atodiad F: Mynediad i Wasanaethau - manylion y dulliau arfaethedig o gyfrifo'r amseroedd teithio

Trafnidiaeth gyhoeddus

Byddwn yn defnyddio gwasanaeth Mapumental a ddarperir gan MySociety i gyfrifo pa mor hygyrch yw'r gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus. Yn ei ddull gweithredu safonol, mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio'r casgliad cenedlaethol o ddata amserlen trafndiaeth gyhoeddus (gan gynnwys trenau) i gyfrifo map amser teithio o bwynt dynodedig ar fap. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn gyhoeddus yn <http://property.mapumental.com>. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Mapumental i ddatblygu'r algorithm hwn i weithredu ar sail cyfres o bwyntiau dynodedig gyda'i gilydd a hefyd anfon canlyniadau mewn fformat parod i System Gwybodaeth Ddaearyddol. Roedd astudiaeth beilot yn seiliedig ar ysgolion uwchradd yn dangos y gall y gwaith cyfrifo gael ei wneud mewn munudau (yn hytrach na'r diwrnodau a oedd eu hangen ar gyfer y fethodoleg flaenorol). Mae'r canlyniadau manwl o'r algorithm diweddaraf hwn yn cael eu gwerthuso.

Mae MySociety a Mapumental wedi cyhoeddi manylion y dulliau o gyfrifo mewn blogiau a phapurau a gyhoeddwyd trwy eu gwefan. Mae rhai o'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith gwerthuso ar ran Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- amser cyfnewid o 5 munud mewn safleoedd nad ydynt yn safleoedd bws, newid o funud mewn arosfan bws;
- cyflymder cerdded o 1.34m/e neu 3mya rhwng safleoedd;
- uchafswm amser cerdded o 10 munud rhwng dau safle²⁸;
- uchafswm amser teithio o 4¼ awr.

Nodwch hefyd fod cyflymder cerdded ac amseroedd rhwng safleoedd yn cael eu cyfrifo waeth beth fo'r dirwedd (h.y. mae'r unigolyn yn teithio ar gyflymder cyson dros bob math o dirwedd) a'r rhwystrau (h.y. mae'r unigolyn yn teithio 'fel yr hed y frân' rhwng pob safle).

Trafnidiaeth breifat

Ar hyn o bryd, mae dwy dechnoleg bosibl ar gyfer cyfrifo trafndiaeth breifat. Y gyntaf yw system dadansoddi rhwydwaith 'Routefinder' ar gyfer Mapinfo Professional. (<http://www.routeware.dk/routefinder/routefinder.php>). Mae teithiau car ar hyd y rhwydwaith ffyrdd yn cael eu cyfrifo er mwyn creu map amser teithio o bob pwynt gwasanaeth. Mae rhai o'r rhagdybiaethau allweddol yn cynnwys:

- Cyflymder teithio wedi'i bennu 25% islaw'r terfyn cyflymder;
- Uchafswm amser teithio o 75 munud.

Y rhwydwaith ffyrdd a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo fydd Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig yr Arolwg Ordnans (<http://www.ordnancesurvey.co.uk/business-and-government/products/itn-layer.html>).

²⁸ Noder, gall hyn gyfuno wedyn i greu amser cerdded hirach os yw'r safleoedd o fewn 10 munud i'w gilydd. Os oes dros ddeng munud o waith cerdded rhwng dau safle yna, gan ddefnyddio algorithm safonol Dijkstra, rydym yn disgwyl yn yr arhosfan cyhyd ag y bo'r angen er mwyn parhau â'r siwrnai h.y. nes y bydd gwasanaeth arall yn cyrraedd.

Y dull amgen – sy'n dal yn cael ei werthuso – yw defnyddio gwasanaethau ArcGIS Online gan ESRI, sy'n cynnwys adnoddau amrywiol ar gyfer cynllunio logisteg a chyflenwi gwasanaeth. Yn benodol, mae'r adnodd 'Service Area' a gyrchir drwy API²⁹ ar y we, yn darparu'r gallu i gynhyrchu'r cyfuchliniau amseroedd teithio yr ydym yn cynnig eu defnyddio ar gyfer cyfrifo.


Mae'r rhwydwaith ffyrdd a ddefnyddir gan wasanaeth ESRI yn cynnwys nodweddion ar gyfer cyflymder traffig ar adegau gwahanol o'r dydd, a gallai hynny wella ansawdd canlyniadau.

Mapiau enghreifftiol

Mae'r tri map canlynol yn dangos lleoliadau anheddau yng Nghymru (fel cyd-destun), ac yna dau fap thematig o AGEHI wedi'u grwpio ar sail y 10%, 10-20%, 20-30%, 30-50% mwyaf difreintiedig a'r 50% lleiaf difreintiedig o safbwynt amseroedd teithio i ysgolion uwchradd, gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat fel ei gilydd. Maent yn defnyddio'r dulliau cyfrifo canlynol: Mapumental ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, a Routefinder ar gyfer trafnidiaeth breifat.


²⁹ Gweler y dogfennau yn http://resources.arcgis.com/en/help/arcgis-rest-api/#/Service_Area_service_with_asynchronous_execution/02r3000000n0000000/

Lleoliadau anheddau yng Nghymru, 2013




© Crown Copyright and database right 2013. Ordnance Survey 100021874.
© Hawffraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.

Amseroedd teithio i ysgolion uwchradd gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus



© Crown Copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100021874
 © Hawffraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874

Amseroedd teithio i ysgolion uwchradd gan ddefnyddio car preifat



Atodiad G: Newidiadau technegol arfaethedig i'r Dangosyddion Amgylchedd (Aer)

Isod ceir gwybodaeth am y dangosyddion ansawdd aer cyfredol ac yna'r newidiadau arfaethedig.

Crynnodiadau

Crëwyd grid fector 1km x 1km (polygon) i gynnwys Cymru gyfan, sy'n cyfateb i'r GRIDiau crynnodiad a gyflenwyd gan Netcen (data 2008). Mae'r model a ddefnyddiwyd i greu'r gridiau yn cynnwys data allyriadau 2007. Cafwyd gwerthoedd crynnodiad ohonynt ar gyfer pob AGEHI ar gyfer yr ystadegau a'r llygryddion canlynol:

- Cymedr blynyddol bensen ar draws AGEHI
- Cymedr blynyddol carbon ar draws AGEHI
- Cymedr uchafswm osôn dyddiol 8 awr ar draws AGEHI
- Cymedr blynyddol nitrogen deuocsid ar draws AGEHI
- Cymedr blynyddol gronynnau ar draws AGEHI
- Cymedr blynyddol sylffwr deuocsid ar draws AGEHI
- Canradd 99.9 o gymedr sylffwr deuocsid dros 15 munud ar draws AGEHI

Hefyd, cyfrifwyd cyfartaledd poblogaeth ar gyfer pob AGEHI sy'n cynnwys Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Gronynnau) ac Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Nitrogen deuocsid).

Roedd diweddariad Dangosydd 2012 yn defnyddio data crynnodiad 2009. Roedd y model a ddefnyddiwyd i greu'r gridiau hyn yn defnyddio allyriadau 2008.

Allyriadau

Crëwyd grid fector 1km x 1km (polygon) i gynnwys Cymru gyfan, sy'n cyfateb i'r GRIDiau crynnodiad a gyflenwyd gan Netcen (data 2008). Cafwyd gwerthoedd allyriadau blynyddol ohonynt ar gyfer pob cell grid ar gyfer y llygryddion canlynol:

- Arsenig
- Benso (a) pyren
- Bwtadien
- Cadmiwm
- Cromiwm
- Diocsinau
- Mercwri
- Amonia
- Nicel
- Ocsidau Nitrogen
- Plwm
- Fanadiwm
- Cloridau Organig Ffrwydrol

Roedd diweddariad Dangosydd 2012 yn defnyddio data allyriadau 2009.

Newidiadau a argymhellir

O ganlyniad i'r newidiadau i'r rheoliadau ansawdd aer a'r newidiadau methodolegol yn DEFRA, awgrymwyd sawl newid i'r dangosyddion aer.

- (a) Ocsidau Nitrogen – yn y dangosydd allyriadau aer ar hyn o bryd. Mae grid crynodiadau i'w gael bellach yn ogystal â grid allyriadau. Gridiau crynodiadau fyddai orau oherwydd y gellir eu cysylltu'n uniongyrchol â'r Amcan. Cynigir symud ocsidau Nitrogen i'r Dangosydd Crynodiad Aer a defnyddio'r un safon 30ug/m^3 o'r strategaeth Ansawdd Aer.
- (b) Carbon monocsid – yn y dangosydd crynodiad aer ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw waith modelu CO yn cael ei gyflawni yn y DU bellach – mae'r asesiad cydymffurfio y defnyddir y gwaith modelu hwn ar ei gyfer bellach yn seiliedig ar dechneg amcangyfrif amcan gan fod y crynodiadau mor isel. Cynigir diddymu hwn o'r Dangosydd.
- (c) Sylffwr deuocsid – mae 2 amcan AQ yn cael eu defnyddio yn y dangosydd crynodiad aer ar hyn o bryd. Cymedr blynyddol o 20ug/m^3 ac uchafswm o 266ug/m^3 ar gyfartaledd dros 15 munud gyda dim mwy na 35 o achosion uwchlaw'r trothwy mewn unrhyw flwyddyn. Nid yw'r ail amcan yn rhan o Reoliadau Strategaeth Ansawdd (Cymru) 2010. Cynigir newid yr ail amcan er mwyn cyfateb i amcan newydd y Strategaeth Ansawdd Aer o 350ug/m^3 ar gyfartaledd dros 1 awr gyda dim mwy na 24 o achosion uwchlaw'r trothwy mewn unrhyw flwyddyn.
- (d) Mater gronynnol – mae'r dangosydd crynodiad aer yn cynnwys grid ar gyfer PM10 ar hyn o bryd. Mae'r dull yn defnyddio amcan cymedr blynyddol o 20ug/m^3 . 40ug/m^3 yw gwerth terfyn cyfredol y Strategaeth Ansawdd Aer. Cynigir newid yr amcan i gyfateb â'r targed. Hefyd, mae gwerth terfyn o PM2.5 yn Rheoliadau Strategaeth Ansawdd Aer (Cymru). Y cynnig yw ychwanegu PM2.5 at y Dangosydd Crynodiad hefyd, gan ddefnyddio'r gwerth terfyn o 20ug/m^3 .